YR YMOFYNYDD.

RHIF 34.] MEHEFIN, 1850. [CYF. III.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

HUNAN-YMWADIAD—PA BETH YDYW?

NID yn anmhriodol y sylwyd fod y gorchymyn sy'n gofyn i ddyn "ymwadu ag ef ei hun," yn cynnwys enghraifft o'r *hyperbole*, neu, ormod-iaith ddwyreiniol. Y mae enghreifftiau eraill o'r fath i'w cael yn yr ysgrythyrau. Oddiar yr ystyriaeth hyny y deallir nad yw yr ymadrodd, "Cyfoded ei groes a dilyned fi," yn meddwl dim mwy na llai na pharodrwydd i ddioddef pob peth er mwyn Crist a'i efengyl. Ac nad yw "tynu allan y llygad dehau, a thori ymaith y fraich ddehau, a'u taflu oddiwrthym," er mwyn myned i'r bywyd, ddim i'w cymeryd yn llythyrenol; ond i ddangos yr angenrheidrwydd o roddi i fynu bob peth ag sydd yn rhwystr i'r alwedigaeth Gristnogol. Ac felly pan y dywedir, "Pwy bynnag a'th darawo ar y rudd ddehau, tro'r llall iddo hefyd," y peth a amcanai ein Harglwydd oedd dysgu ei ganlynwyr i fod yn amyneddgar ac ymarhous, yn hytrach na rhoddi ffordd i'w tymherau, ac ymddial ar eu herlidwyr. Dyma'r peth a feddylir yn gyffredin wrth yr ymadroddion crybwylledig. Y mae natur pethau a rhesymoldeb crefydd Grist yn gofyn i'w cymeryd felly. Ond nid oes dim, ar a wyddom ni, ag sy'n ei wneud yn gwbl anmhosibl i gymeryd y cyfryw ymadroddion yn eu hystyr llythyrenol. Y mae llawer disgybl wedi "cymeryd y groes" yn llythyrenol, ac wedi canlyn ei Feistr hyd at ddioddefaint angau. Y mae rhai hefyd wedi myned mor bell a thaflu ymaith aelodau o'u cyrff er mwyn ufyddhâd llythyrenol i'r gorchymyn. Ond pa beth yw hyn at "ymwadu â ni ein hunain" mewn ystyr llythyrenol—yr hyn fyddai yn gofyn nid yn unig i daflu ymaith y fraich a'r llygad dehau, ond y ddau lygad, y ddwy fraich, y pen, a'r traed; iê, a'r holl gorff a'r enaid hefyd! Rhaid i ni gan hyny ymofyn am ystyr arall i'r gorchymyn heblaw yr un llythyrenol. Ar yr un pryd rhaid cadw mewn cof bod yn rhaid deall geiriau Crist mewn ystyr a fyddo yn deilwng o bwysigrwydd ei gennadwri fawr. Y mae yn sicr ei fod yn galw ar ei ganlynwyr i fod yn ymdrechgar ac yn wyliadwrus, ac i roddi i fynu naill ai yn gwbl, neu mewn rhan, rai o'r pethau ag sydd yn uchel yn ngolwg y byd yn gyffredin. Ond pa bethau, perthynol i'r cyn-

nysgaeddiad a'r arferion dynol, y gelwir arnom i ymwadu a hwynt, a pha mor bell? Dyma ydyw y cwestiwn.

Os cynnygir cyfyngu y ddyledswydd o hunan-ymwadiad i'r troedigion cyntaf, oddiar yr ystyriaeth fod eu hanhawsderau annghyffredin y fath fel mai cyfyng neillduol oedd iddynt hwy, a chul y ffordd ag oedd yn arwain i'r bywyd: y mae'r atteb yn barod, sef, nad ymddengys fod dim yn eu hamgylchiadau hwy mor wahanol oddiwrth amgylchiadau Cristnogion trwy'r oesoedd canlynol, ag a allai beri fod y ddyledswydd o hunan-ymwadiad i ddarfod gyda phlanniad Cristnogrwydd yn y byd. Rhaid o hyd "ymdrechu i fyned i mewn trwy'r porth cyfyng."

Ac os dygir gwrthddadl oddiar dir philosophyddiaeth Gristnogol, gan haeru, "nad yw Duw na Christ yn disgwyl nac yn galw ar neb i wneuthur dim ond yr hyn a fyddo ar y cyfan o'r lles mwyaf iddo ei hun; ac nad oes eisieu hunan-ymwadiad na lle iddo weithredu, yn y gyfundraeth sy'n dysgu mai llwybr dyledswydd pob dyn yw y llwybr sy'n arwain i'w ddedwyddwch ei hun;" y mae yn attebiad digonol os gellir ddangos, fod y gwrthddadleuwyr hyn yn cymeryd yn ganiataol fod dynion, ie, a bod Cristnogion proffesedig hefyd, y peth nad ydynt—fod yr hyn a edrychir arno fel elw personol neu fwyniant presennol, yr un peth a'r elw pennaf a'r lles mwyaf ar y cyfan,—yr hyn nid yw *fact*. Ni allant wadu na raid yn fynych "ymwadu" a'r blaenaf er mwyn sicrhau yr olaf. Pe buasai Cristnogion, mewn meddwl, teimlad, a gweithred, yn bob peth y dylent fod, ni fuasai yn wir eisiau iddynt "ymwadu a hwy eu hunain" yn y mesur lleiaf. Ond nid felly y mae yn bod. Y mae addysgiadau yr efengyl a'r iechawdwriaeth a gynnygir ynddi, yn atteb i gyflwr ac anghenion dynolryw. "Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg; ac nid yn ofer—nid heb ddiben da, y mae profedigaethau a threialon yn cyfarfod â dynion yn y fuchedd sydd yr awr hon. Gwelir fod profiad ac addysg yn myned law yn llaw er perffeithio plant Duw, a'u cymhwyso i'r fuchedd fwy gogoneddus sydd etto i ddyfod. Bod yn rhaid ymdrechu âg anhawsderau lawer, gwylio a gwrthsefyll profedigaethau fyrdd—dyma'r drefn y mae doethineb a chariad perffaith yn ei weled yn oreu. Cafodd hyd yn oed yr Iesu, "Capten ein Hiachawdwriaeth, ei berffeithio trwy ddioddefiadau." Pa le mae ei ganlynwyr ef a all ddywedyd nad ydyw yn fuddiol, ie, yn anghenrheidiol, iddo ef i ymostwng i'r drefn hon? Pa le mae'r dyn a all ddywedyd yn gydwybodol ei fod ef yn gweled llwybr ei ddyledswydd o'i ddechreu hyd ei ddiwedd—ei fod yn canfod yn eglur mai llwybr o fwyniant ydyw ar bob cam—nad ydyw yn teimlo serch a thueddiad at lawer peth ag y mae ei gydwybod yn dywedyd wrtho, ei fod yn rhwystrol i'w ddyledswydd at Dduw, at ei gyd-ddynion, ac atto ei hun, ac o ganlyniad yn rhwystrol i'w ddedwyddwch pennaf—nad yw yn llefain lawer pryd o wraidd ei galon, "O Dad, os yn bosibl aed y cwpan hwn heibio"—nad yw chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder y bywyd" ddim yn dwyn un brofedigaeth iddo ef; ond bod yr awydd greddfol am ddedwyddwch yn nghyda'r deall a'r gydwybod mewn perffaith cydgordiad, a bod Haul y gwirionedd yn barhaus heb un cwmwl o flaen ei lygaid? Dyna ddyn nad oes un eisieu iddo "ymwadu ag ef ei hun." Ond pa le mae'r dyn hwnw i'w gael?"

Oddiwrth y sylwadau uchod fe wêl y darllenydd, gobeithiwn, nad ydym yn gwadu nac yu ammeu nad llwybr dedwyddwch pob un o honom yw llwybr gorchymynion Duw; ac nid yn unig y gwelir mai felly y bydd y pen draw, ond am bob ryw aberthiad a wnawn yn achos dyledswydd a chyfiawnder ni a gawn ein talu yn llawn—"y càn cymaint yn y byd hwn, ac yn y byd a

ddaw, bywyd trygwyddol." Ond etto, fod rhai pethau—pethau ag sydd mwy neu lai yn ymgynnyg yn gryf i ddisgyblion Crist fel i ddynion eraill, yn ôl eu hamrywiol amgylchiadau yn y byd—pethau ag sydd rhaid "ymwadu" a hwynt neu o leiaf eu cadw yn barhaus dan llaw, rhag iddynt fod yn dramgwydd ac yn rhwystr ar ffordd ein hufydd-dod i ewyllys Duw,

Tebygem nad oes eisiau i ni ddywedyd nad ydym yn myned mor bell ag yr â llawer, i ddal fod rhaid ymwadu a'r natur a ddaeth gyda ni i'r byd, yr hon, meddant, sydd yn wreiddiol ac yn gwbl lygredig, fel "nad oes man glân na chyfan arnom o'r gwadn hyd y coryn." Anhawdd penderfynu pa un fwyaf y gwrthuni neu y cabledd, o ddywedyd fod rhaid i ni ymwadu â'r natur a roddes ein Creawdwr i ni. Ofer fyddai ceisio gwella, chwaithach cyfnewid, yr hyn sydd o'i waith a'i drefniad Ef.

Gellir cyfrif am y "pechod," neu'r pechodau sydd mwy neu lai "yn barod i amgyllchu" pob un o honom, a'r egwyddorion ac arferiadau camsyniol a llygredig sy'n dwyn effeithiau mor niweidiol ar blant dynion, heb orfod lletya'r dyb wrthun a chableddus, mai Duw yw yr awdwr o honynt. Pa fodd bynag, mae'r gwaith o "gyrchu at y nôd o gamp uchel o alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu," yn gofyn i ni ymwrthod â phob peth sydd yn rhwystrol i'n cynnydd mewn rhinwedd a defnyddioldeb. Nid oes le i betruso yma. Pa beth bynag sydd yn anghyson â phurdeb mewn meddwl, gair, a gweithred—pa beth byuag sydd yn ein anghymhwyso i gyflawni dyledswyddau cariad—pa beth bynag fyddo yn ein gwneud yn annhebyg i Grist—rhaid ymwrthod â'r peth hwnw, os mynwn gyrchu at y nôd o berffeithrwydd Cristnogol; ie, rhaid "ymwadu" ag ef, er mor anwyl y byddo i'n teimladau, o herwydd hir arfer âg ef. Dyma, yn fyr, yr hyn a ymddengys i ni ydyw yr "hunan-ymwadiad" y mae Crist yn ei orchymyn. Buasai trin y testun yn gyflawn yn gofyn traethawd helaeth iawn. Nid gwiw i ni gau ein llygad ar y *fact* ein bod yn byw mewn byd o brofedigaethau. Ni chaniateir i ni yn bresenol gymaint a nodi yr amrywiol faglau, y rhai sydd yn rhy aml yn rhwydo traed hyd yn oed disgyblion Crist.

Y mae balchder, y mae hunan-dyb, y mae ariangarwch, y mae caru cael y blaenoriaeth a'r mawrglod, wedi bod yn fagl ac yn rhwystr i hwn a'r llall, er lleihau, os nad attal, ei gynnydd crefyddol, a'i ddefnyddioldeb:

> "A melus chwant gwenieitho mae,
> I ddenu'r llaith i lawer gwae."

Rhaid gwylied yn ofalus ac ymdrechu yn ddewr yn erbyn y rhai'n, ac yn erbyn rhwystrau eraill o'r fath. Gristion, a wyt ti yn ofni wrth weled y peryglon sydd yn dy amgylchynu? Nid oes achos it' ofni tra fyddot yn sefyll ar lwybr dy ddyledswydd. Cymmer galon, a bydd yn wyliadwrus.

> "Gwisg yr arfogaeth sydd o'r nef,
> Gwirionedd Duw a'i gariad Ef."

Cerdd yn y blaen, "gan edrych ar yr Iesu, Awdwr a Pherffeithydd ein ffydd." Ar ol cyrhaedd pen ein taith bydd melus cofio ein bod, lawer gwaith trwy hunan-ymwadiad, wedi ymryddhau oddiwrth rwystrau a maglau yr anialwch.

Ond, ddarllenydd hynaws, fe allai fod rhyw un yn ceisio dy berswadio, ei fod yn rhaid i ti *ymwadu a'th reswm* mewn pethau crefyddol. Paid, er dim, a gwneud y fath beth. Bydd yn barod i dderbyn addysg ac yn ddiolchgar am dano; ond paid ymwrthod a'r cyfrwng gwerthfawr trwy yr hwn yr wyt

yn gallu adnabod a gwasanaethu Duw. Ymwadu a'th reswm! Beth fyddai hyny ond ceisio genyt i droi yn anifail? Ac mewn pethau crefyddol, yn anad dim, ymdrecha ddefnyddio'r ddawn odidog hon gyda'th holl egni a'th ddiwydrwydd. Llygad y meddwl, ydyw'r rheswm neu'r deall. Hebddo nid ydyw yn alluadwy i ti ganfod yr hyn mae Duw wedi amlygu am dano ei hun, nac yn ei air nac yn ei weithredoedd. Na ddigia am ein bod yn dywedyd ein meddwl i ti yn onest. Os tydi a roddi glust i'r sawl sydd yn galw arnat i "ymwadu a'th reswm," y mae yn brawf dy fod wedi ymwadu â hi yn barod. Yr un peth fyddai ceisio genyt i werthu dy gydwybod, ag i alw arnat i ymwadu a'th reswm. Ond ystyriwn mai afreidiol fyddai cynnyg rhesymau lawer ar y pen hwn i ddarllenwyr yr "Ymofynydd."

Er fod twyll-offeiriadaeth yn y dyddiau hyn yn dangos ystrangciau rhyfedd ddirmygus mewn rhai lleoedd uchel, y mae yn llawen genym weled ar y cyfan ei bod yn colli tir. Y mae dynion yn penderfynu barnu drostynt eu hunain, yn fwy, wrth weled ffolinebau y rhai a honant hawl ac awdurdod i farnu drostynt. Y mae gobaith am ryddhad i'r caethion, pan fyddo eu traws-arglwyddi yn ymrafaelio. I.

TRYSORFA Y GWEDDWON;

NEU GYMDEITHAS GYNNORTHWYOL I WEDDWON AG AMDDIFAID GWEINIDOGION YR YMNEILLDUWYR.

"It is hard and heavy, when death bereaveth a woman of her husband, and devolves upon her a multiplicity of cares in training up a fatherless offspring."—MACGOWAN.

OLYGYDD HYNAWS,—Edrychwyf ar y gwahanol gyhoeddiadau misol a gyhoeddir yn mhlith ein cenedl fel cyfryngau tra addas i ymofyn, trin, penderfynu, cymerydwyo, neu anghymeradwyo fel byddo'r amgylchiad, unrhyw bynciau, neu osodiad au ag a fyddo'n dwyn perthynas agos neu bell a ni fel cenedl, neu a'r gwahanol enwadau crefyddol a gynnrychiolant. Derbyniais er ys ychydig ddyddiau yn ol ddan fynegiad diweddaf y Gymdeithas uchod, sef, y rhai am 1849 a 1850, ynghyd a llythyr gwresog oddiwrth ei hysgrifenydd, Mr. Smithers, yn crefu arnaf i ddwyn hawliau y Gymdeithas o flaen eglwysi y Dywysogaeth, a gosod ger eu bronau ei phrif hegwyddorion a'i gweithrediadau am y blynyddau diweddaf. Buasai yn llawer gwell pe cyflawnid y gorchwyl gan ryw frawd addasach na mi, o ran gallu a dylanwad, ond gan fy mod yn ymwybodol o ddefnyddioldeb y Gymdeithas, ac o'r cynnorthwy amserol mae wedi roddi i ugeiniau o amddifaid a gweddwon oedranus gweinidogion Cymru, ac i'm brodyr, swyddwyr y Gymdeithas, osod hyn o waith arnaf, ymdrechaf gydsynio a'u cais, gan osod ger bron ein heglwysi, mor amlwg ac ar yr un pryd mor fyred ag y medraf, hawliau a rheolau y Gymdeithas enwog hon, gan hyderu, Mr. Golygydd, ar sail eich dyngarwch a'ch crefyddoldeb, y rhoddwch le i'r llinellau canlynol yn ryw gwr o'ch cyhoeddiad clodwiw, mewn gobaith y gwasanaethant y Gymdeithas i raddau mawr.

Nid oes gymaint a fynwn yn bresenol a phrofi'r angenrheidrwydd am y fath a "Thrysorfa i Weddwon," gweinidogion yr efengyl, o herwydd mae hyn yn cael ei gredu a'i gyfaddef mor gyffredinol, fel, pe gofynid a ydyw y fath Gymdeithas yn angenrheidiol, ni cheid mo'r un adnabyddus o'n hamgylchiadau fel ymneullduwyr yn Lloegr, ac yn enwedig yn Nghymru, a atteb y gofyniad yn nacâol. Pe rhoddem ardrem dros lechres y gweinidogion ag ydynt wedi eu symud o'r byd yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, dilys y caem fod *wyth* o bob *deg* a adawsant weddwon ar eu hol, wedi eu gadael heb ddarpar yn y byd ar eu cyfer, a'u plant yn gyffelyb amddifaid. Ychydig o sylw chwaethach cynnorthwy a dderbynasant oddiwrth yr

eglwysi a wasanaethid yn ffyddlawn gan eu gwyr a'u tadau, ac os appelid attynt, caent y fath attebion a—"Nis gallwn eu cynnorthwyo, rhaid cynnal y gweinidog presenol—Sut y gallwn gasglu at bob peth?—Pe symudid ni, pwy gynhaliai ein gweddwon ni, &c.?"—Nid oes a fynom yn *awr*, nac â rhesymoldeb, nac afresymoldeb yr esgusodion uchod; digon er gwasanaethu ein dibenion presenol yw, *mai felly mae pethau yn bod;* a'r pethau hyn ag eraill ellid eu henwi a reidiola Gymdeithas fel y soniedig. Yn awr nid ein gwaith yw gwahodd eich sylw, a'ch teimladrwydd, a'ch galluoedd i'r maes at y gwaith pryderus o fyfyrio a phenderfynu rheolau er sefydlu Cymdeithas newydd; ond cymhell sylw a chynnorthwy ein gilydd at sefydliad ag sydd wedi sefyll, yn yr ystyr helaethaf, *prawf* amser, gan fod ei sail gwedi ei gosod i lawr er ys ragor na *chan mlynedd*, drwy yr hon ysbaid hirfaith mae wedi estyn ei llaw haelionus allan yn y fath fodd nes peri i galonnau y gweddwon lawenychu, ac i dafodau yr amddifaid ei bendithio. Dywedir yn aml yn ddiweddar yn ngwyneb lluosogrwydd cymdeithasau newyddion ein gwlad, "fod yr hen sefydliadau mewn perygl o gael eu hesgeuluso." Yngwyneb hyn dywedwn, os ydyw y cymdeithasau o ffurfiad diweddarach yn cymeryd i fynu amcanion y rhai oeddent ar y maes o'u blaen, ac yn gallu eu cyrhaedd yn effeithiolach o herwydd ryw welliant yn eu rheolau a'u cynlluniau, mai gwell yw symud y cyntaf er rhoddi lle i'r ail. Ond am "Drysorfa'r Gweddwon," yr hon a sylfaenwyd yn 1733, er cymaint ac er effeithioled y cymdeithasau a sefydlwyd ar ei hol, nis gellir erddynt oll hebgor y lawforwyn ddefnyddiol hon. Barna ymgeleddwyr y Gymdeithas mai y rheswm nac ydyw yr eglwysi yn fwy brwdfrydig o'i phlaid, yw, am eu bod yn gymharol anwybodus o'i hegwyddorion a'i gweithrediadau; ac maent yn awr wedi penderfynu ymegnio er lledu y son am lafur eu cariad a'u llwyddiant gyda'r Gymdeithas drwy eglwysi Lloegr a Chymru, gan goleddu y gobaith y byddant yn alluog yn y blynyddau dyfodol i rhoddi attebion ffafriol i'r lluaws deisebau am gynorthwy ac maent wedi dderbyn, yr hyn ni allant ei wneud yn awr o herwydd bychanrwydd eu derbyniadau.

Mae y Gymdeithas yn cymeryd tan ei nhawdd deuluoedd y gweinidogion hyny yn mhlith y Presbyteriaid, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr, ag a fyddont yn gymeradwy gan eu henwad yn amser eu marwolaeth, os na fyddant yn gadael ar eu hol i'w gweddwon a'u hamddifaid ddigonol ddarpariaeth ar eu cyfer.

Yn amser sefydliad y Drysorfa, (1733) y swm flynyddol a roddai i bob gweddw ydoedd £5 yn y flwyddyn: y rhodd i weddwon Cymru ydoedd £3; ond o'r cyfnod hyny allan, gan gynnydd y gefnogaeth a gawsai y Gymdeithas, galluogwyd hi i gynnyddu ei rhoddion yn raddol nes cyrhaedd i'r gweddwon Saesonig y swm o £10 i £15, ac i'r gweddwon Cymreig o £8 i £10. Nifer y gweddwon a gynnorthwyid gan y Gymdeithas yn 1848 ydoedd 246, yn ol £11 i bob un o eiddo'r Saeson, ag £8 yr un i eiddo'r Cymry; yn nghydag £1 ychwanegol i'r cyfryw ag oeddent wedi cyrhaedd 70 oed. Yr oll o'r arian a wasgarodd ydoedd £2526. Pe casglai yr oll o'r eglwysi perthynol i'r gwahanol enwadau ond ychydig yn flynyddol, gallasai y Pwyllgor barhau i roddi yn gyfartal i'r rhai uchod; ond yn lle hyny yr oedd tanysgrifiadau y flwyddyn ddiweddaf yn llai na'r blynyddau o'r blaen, ac o herwydd hyny ni allwyd cynnorthwyo yn 1849 ragor na 238, ac ni allwyd gwasgaru rhyngddynt ychwaneg na £2480. Y nifer ag ydynt yn awr ar lyfrau y Gymdeithas yn derbyn tâl yw 225, o'r nifer yma y mae 160 o honynt yn Saeson, a 65 yn Gymry. O'r 160 yn mhlith y Saeson, y mae 9 o honynt yn weddwon, eiddo y Presbyteriaid, 64 o honynt yn eiddo'r Annibynwyr, ac 86 yn eiddo y Bedyddwyr. Ond gan mai argymhell y Drysorfa i sylw ac ymgeledd y Cymru yw ein hamcan mwyaf uniongyrchol gwnawn gyfyngu ein nodion at weithrediadau y sefydliad tuag at weddwon y Cymry yn neillduol.

Barnwn yn ddiduedd, wrth gymharu poblogrwydd y Dywysogaeth ag eiddo Lloegr, a gadael son am annghyfartalrwydd eu rhoddion, fod y Gymdeithas yn ymddwyn yn hynod o ffafriol tuag attom wrth estyn ei hymgeledd i 67 o'n gweddwon, y rhai a dderbyniasant rhyngddynt y flwyddyn ddiweddaf dros £547, heblaw rhoddion achlysurol i weddwon ag amddifaid, y rhai na ystyrid yn dderbynwyr cyson o'r Drysorfa. Dywedir wrthym gan yr Ysgrifenydd, fod yn ystod

y deuddeg mlynedd diweddaf, tua £6000 wedi eu hanfon i weddwon gweinidogion Ymneilldu'ol Cymru, er na dderbyniodd y Drysorfa o'r Dywysogaeth yn ystod yr un amser ond £300.

Gwelwn oddiwrth y cyfrifon uchod fod llawer wedi ei roddi i Gymru yn ngwyneb anghenoctyd mawr; ac onid cyfiawnder unol a rheswm ac ysgrythyr ydyw dysgwyl ychydig yn rhagor nag a gafwyd yn ol? "Canys," ebe Crist, "i bwy bynag y rhoddwyd llawer, llawer a ofynir ganddo; a chyda'r neb y gadawsant lawer, ychwaneg a ofynant ganddo." Gwir yw yr anfonir i fyny ychydig yn flynyddol oddiwrth y gwahanol enwadau a berthynant i'r Gymdeithas, er nas gwyddom trwy ba gyfryngau yr anfona neb, heblaw yr enwad y perthynwn iddo, y Bedyddwyr, yr hwn enwad a anfona gan mwyaf trwy ddwylaw ysgrifenyddion y Cymanfaoedd; ac yn wir, pan yn sylwi ar y symiau a gasglwyd yn y Cymanfaoedd yn y blynyddau 1847 ac 1848, braidd nad oeddem yn cywilyddio gan mor lleied oeddent: er enghraifft:—

	£	s.	d.		£	s.	d.
Cymanfa Mynwy, gan Mr. Isaac Hiley - - -	12	18	6	Morganwg, gan y Parch. J. James	3	10	2
Cymanfa Penfro am 1847 -	12	9	0	Yr hen Gymanfa gan y Parch. J. Evans - - -	1	2	6
Etto, am 1848 -	13	9	0				
Caerfyrddin ag Aberteifi, gan y Parch. T. Thomas - -	10	18	0	Y cyfan yn	£54	15	2

Y mae yn ofidus genym feddwl nad yw symiau ein brodyr o enwadau eraill yn fawr ychwaneg, er nas gwyddom eu *items* ar hyn o bryd. Nid ydym yn coffa y ffeithiau rhai'n er diraddio na briwio teimladau neb eglwysi neu bersonau, gan y credwn mai y prifachos o'n tanysgrifiadau bychain yw bychandra ein gwybodaeth am natur a gweithrediadau y sefydliad; ond yr ydym yn eu gosod gerbron ein heglwysi er mwyn iddynt weled yr anghyfartalwch sydd rhwng eu rhoddion a'u derbyniadau.

Da genym feddwl fod mewn rhai o'n heglwysi danysgrifwyr cyson, yn weinidogion ac yn aelodau, o £1 ac uchod; ac y mae yn ddiogel genym y cynnydda nifer y cyfryw yn gystal a chyfraniadau ein cymanfaoedd ar ol cael ardem ar weithrediadau y Gymdeithas yn ei gwahanol gysylltiadau; oblegid pwy ag sydd yn adnabyddus ag hanes llafur cariad, ag ymaros gobaith y gwroniad hyny ag a fuont, rai o honynt am ddeg, ugain, deugain, a rhai o honynt am hanner can mlynedd, ar furiau Seion, gan gysegru eu hunain, eu hamser, eu bywyd, eu meddiannau, a'u talentau, i seinio efengyl hedd i'w cyd-ddynion, na chyfranai yn ewyllysgar yn ol eu gallu er diwallu angen y sawl a fuont yn "ymgeledd gymmwys" iddynt mewn myrdd a mwy o gyfyngderau, ac a adawyd ar eu hol yn hollol ddiddarpariaeth, heb arian trefn, tai, na thiroedd.

Gorphwysaf yn bresenol mewn gobaith y bydd tanysgrifiadau ein heglwysi tuag at "Drysorfa y Gweddwon," yn llawer helaethach nag arferol; fel y dangosom i'n brodyr, ymgeleddwyr y gymdeithas, nad ydym yn hollol ddisylw o'u cynnorthwy i, a'u hymdrech yn mhlaid, gweddwon, ac amddifaid ein brodyr ag ydynt yn awr wedi gadael y maes ac yn mwynhau eu gorphwysfa lonydd. A chofiwn oll annerchiad Esay, fab Amos, a gweithiwn arno: "Dysgwch wneuthur daioni, ceisiwch farn, gwnewch uniondeb i'r gorthrymedig, gwnewch farn i'r amddifad, dadleuweh dros y weddw."

Ydwyf yr eiddoch, anwyl frodyr, dros y Gymdeithas,

Pen-y-bont-ar-Ogwy, Mai 9, 1850. J. P. JONES.

O.Y. Os oes rhai gweddwon yn awr yn Nghymru ag ydynt yn briodol wrthddrychau y Drysorfa, heb erioed *applyo* am un cynnorthwy, gallant gael ffurfddeisebau argraffedig *(printed forms of petitions)* yn nghyda'r gofyniadau cysylltiedig wrth anfon am danynt attaf fi i Benybont, neu at yr ysgrifenydd, *Mr. Smithers, No. 3 Brabant Court, Philpot Lane, London.*

Y DRINDOD.

LLYTHYR VI.

Y PRAWF nesaf a ddygir ym mlaen dros drindod yn undod yw 1 Cor. xii. 4—6:—"Ac y mae amryw ddoniau, eithr yr un Ysbryd; ac y mae amryw weinidogaethau, eithr yr un Arglwydd; ac y mae amryw weithrediadau, ond yr un Duw, yr hwn sydd yn gweithredu yr un daioni ym mhawb." Ar ymyl y ddalen, "Duw yw yr hwn sydd yn gweithredu pob peth ym mhawb."

Y mae Boothroyd yn dywedyd, "Fod y geiriau hyn yn cynnwys prawf eglur o'r drindod, ac fod y rhan ddiweddaf wedi ei hamcanu i'w chymmwyso i bob un o'r personau rhag-grybwylledig."

Ymddengys yn eglur i mi ei fod yn camsynied, o herwydd yr ystyriaethau canlynol:—

Yn gyntaf, o herwydd nad yw'r Arglwydd na'r Ysbryd yn cael eu galw yn Dduw yn yr adnodau uchod. Ac etto cyn y gellir eu hystyried yn dysgu trindod, y mae hyny yn hollol angenrheidiol. Ac y mae mor angenrheidiol a hyny, wedi dywedyd fod pob un yn Dduw ar ei ben ei hun, i ychwanegu gyda St. Athanasius "Ac etto nid ydynt dri duwiau: ond un Duw." Ond nid oes un o'r anhebgorion hyn yn y geiriau dan sylw; gan hyny nid oes un prawf yn y byd o drindod yn undod; neu dri pherson dwyfol ac un Duw.

Meddwl y geiriau yn amlwg yw hyn, Fod gwahanol ddoniau ysbrydol, neu wyrthiol, ond mai o'r un ffynnon oeddent oll yn tarddu, sef yr Ysbryd, neu y gallu gwyrthiol oedd y Tad wedi addaw i'r Crist'nogion cyntaf: fod amryw weinidogaethau, ond nad oedd ond un meistr neu Arglwydd i'r Crist'nogion oll; ac er fod gwahanol weithrediadau neu wyrthiau yn cael eu cyflawni, yr un Duw oedd yn eu galluogi hwynt oll; ac felly ni ddylai neb honni blaenoriaeth ar eraill, ond cydweithredu fel aelodau y corff naturiol, i ddwyn oddiamgylch y daioni cyffredinol.

Dr. Adam Clarke a ddywed fel hyn, "Yr oedd y rhai hyn oll [y dylanwadau gwyrthiol] yn deilliaw oddiwrth Dduw'r Tad, fel ffynnon pob daioni a gallu, a chyfranwr uniongyrchol pob rhodd dda a pherffaith." Y mae'r rhan olaf o'r adnod yn cael eu hesbonio am Dduw'r Tad hefyd gan Estius, Beausobre, a L'Enfant ac eraill.

"Yr oedd yr hynafiaid," medd Calvin, "yn arfer y rhan hon yn erbyn yr Ariaid, i ddal i fyny athrawiaeth y drindod; o herwydd sonir yma am yr *Ysbryd*, yna yr *Arglwydd*, ac yn ddiweddaf *Duw;* ac y mae yr un gweithrediad cyffredin yn cael ei briodoli i'r tri pherson; yn y modd hyn yn deall Iesu Grist wrth y gair Arglwydd. Ond er y gallaf yn rhwydd oddef yr esboniad hwn, er hyny y mae'r ymresymiad a arferir yn wan iawn i gau genau yr Ariaid; o herwydd y mae perthynas rhwng y geiriau gweithrediad ac Arglwydd. Y mae Paul yn dywedyd fod amryw weinidogaethau, ond un yw Duw, yr hwn a ddylem ei wasanaethu, beth bynnag fyddo'r gweinidogaethau a arferwn. Y mae'r cyferbyniad hwn, gan hyny, yn profi yn eglur yr unig ystyr, fel y byddai ei gyfyngu i Grist yn dreisiol i'r eithaf."

Felly nid oes yma ddim esgus dros drindod yn undod. Y mae'r unig ystyr, medd Calvin, yn ei gwneuthur yn dreisiol i gyfyngu hyny i Grist. Felly, ffarwel drindod yma etto.

Sylwaf yn nesaf ar 2 Cor. xiii. 13: "Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Yspryd Glân, a fyddo gyda chwi oll, Amen."

Ymresymir oddiwrth y geiriau hyn, fod yn rhaid fod y tri yma, bob un o honynt yn Dduw, gan y byddai yn hollol ammhriodol i ddyn ysprydoledig, na neb o synwyr cyffredin, gyflwyno disgyblion Crist i gariad Duw, a chymdeithas dau o'i greaduriaid; neu i ras dyn, a chymdeithas priodoledd neu allu. Gwel Wardlaw.

Cesglir trindod oddiwrth y geiriau hyn, oblegid fod y tri, meddir, yn ogyfuwch, gan eu bod yn cael eu harfer yn nghyd, yn yr un adnod. Yn nesaf, o herwydd fod enw Crist ym mlaenaf yma. Ac yn olaf, oblegid fod y ffurf hon o fendith yn cynnwys gweddi ar Grist, ar Dduw, ac ar yr Ysbryd Glân.

Ond mewn atteb yr wyf yn sylwi nad yw gwaith fod enwau dau neu ragor o fodau, neu bethau, yn cael eu harfer nesaf at eu gilydd, ddim yn dangos eu bod yn gydradd yn y mesur lleiaf; oblegid yr ydym wedi dangos yn barod fod enwau dynion, angylion, a phethau difywyd yn cael eu harfer felly yn yr ysgrythyrau. Fod y bobl yn ofni yr Arglwydd a Samuel yn ddirfawr, ac etto nid oes neb yn meddwl fod Samuel yn Dduw; fod gorchymmyn i gredu i Dduw a'i brophwydi, ac etto dynion, medd pawb, oedd yr olaf; fod Solomon yn gorchymmyn i'w fab ofni yr Arglwydd a'r brenin, ac etto nis gallasai'r brenin fod yn rhagor na dyn. Y mae Duw ei hun hefyd trwy ei broffwyd Jeremi (pen. xxx. 9,) yn dywedyd, "Eithr hwy a wasanaethant yr Arglwydd eu Duw, a Dafydd eu brenin." Dyn oedd Dafydd er hyny. Dywed ein Harglwydd Iesu Grist am yr hwn sydd yn cywilyddio ei arddel ef, "Hwnw fydd cywilydd gan Fab y dyn, pan ddel yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion santaidd." Y mae Melchizedec yn bendithio Abraham yn y geiriau hyn, "Bendigedig fyddo Abraham gan Dduw goruchaf, meddiannydd nefoedd a daear, a bendigedig fyddo Duw Goruchaf," Gen. xvi. 19, 20. Dywed Paul wrth y Thessaloniaid fel hyn, "A chwi a aethoch yn ddilynwyr i ni ac i'r Arglwydd." Amlwg ynte ydyw nad yw'r casgliad yn deg, fod personau neu bethau yn ogyfuwch, serch eu bod yn cael eu harfer gyda'u gilydd, yn yr un cysylltiad. Pe nad felly, pe teg fyddai y fath gasgliad, nid tri o bersonau dwyfol a gaem, ac felly nid trindod, ond llawer-dod a fyddai gennym ar y tir hwn.

Ond dywedir fod enw Iesn Grist yn cael ei arfer ym mlaenaf yma. Wel, beth am hyny? Nid b'le y mae ef, ond beth ydyw'r ef yw'r pwnc. Os yw gwaith fod enw Crist yn cael ei arfer ym mlaenaf yn profi dim oll o'r hyn a ddychymygir ei fod, sef ei dduwdod, a'i gydraddolrwydd a'r Tad, fe brawf ormod; sef ei fod yn uwch na'r Tad, ac felly nid oes yma gydraddolrwydd yn sicr. Cydraddolrwydd yn wir! Ar yr un tir yn gymmwys y mae Abraham yn gydradd a Duw hefyd, oblegid y mae ei enw ef yn cael ei arfer gan Melchizedec yn y geiriau a ddifynwyd eisioes, o *flaen* y Duw Goruchaf: ac y mae Moses hefyd yn cael ei osod o flaen Duw gan yr Iuddewon, "Yna y gosodasant wyr i ddywedyd, Nyni a'i clywsom ef yn dywedyd geiriau cabledd yn erbyn MOSES a *Duw*. Ond er cymmaint yw ymlyniad yr Iuddew wrth Moses, nid oes neb o honynt wedi dychymygu erioed ei fod ef gogyfuwch a Duw. Ond yr un mor deg ydyw casglu duwdod Moses oddiwrth y cysylltiad olaf, a chasglu duwdod Crist oddiwrth y cysylltiad yn yr adnod dan sylw. Y mae Paul hefyd yn arfer y gair *ni* o flaen Crist, ac enw'r Thessaloniaid o flaen Duw. Ond ni wn i ddim am neb sydd wedi casglu fod Paul a'i barti yn dduwiau, a'r Thessaloniaid yn ogyfuwch a'r Tad, serch eu bod yn cael eu harfer o'i flaen ef. Y fath wendid y mae rhai dynion yn gafaelu ynddo i ddal i fyny eu hathrawiaethau!

Ond y lloches olaf sydd gan y trindodwyr i gilio iddo yn y geiriau hyn yw yr haeriad disail fod yma weddi; fod Paul yma yn gweddio ar y Mab, y Tad, a'r Ysbryd Glân, ac felly fod yma dri gwrthrych gweddi, ac o ganlynlad *dri Duw*. A chaniattau am eiliad fach mai felly y mae, neu fod yma *dri* gwrthrych gweddi, a oes yn yr adnodau dan sylw yn dywedyd mai *un* yw'r tri hyn? Dim sill: ac felly dyna drindod ar lawr o leiaf. Nid tri gwrthrych addoliad sydd eisiau brofi wrth sefydlu trindod, ond *tri yn un*. Nid yw profi fod tri gwrthrych gweddi, heb brofi mai un ydynt, ddim amgen na phrofi tri-dduwiàeth. Gan hyny, os oes yma weddi, gweddi tri-dduwiad, aïe? Ymswyn drindodwr, ymswyn, yn wir bellach, mae yn llawn bryd!! Dychymygaf glywed y trindodwr bellach yn gwaeddi allan *halt* yn awr, does yma ddim tri-dduwiaeth hefyd, nad beth sydd yma. Wel, os nad oes yma dri-dduwiaeth, sicr wyf nad oes yma un weddi hefyd. Na, na, nid gweddi sydd yma, onide byddai yn rhaid gweddio hefyd ar y saith ysbryd sydd o flaen gorsedd Duw yn llyfr y Datguddiad (pen. i. 4, 5) lle y cawn y geiriau neu y weddi ryfedd hyn,—"Ioan at y saith eglwys sydd yn Asia, *Gras fyddo* i chwi *a thangnefedd oddiwrth yr hwn sydd*, a'r hwn a fu, a'r hwn sydd ar ddyfod, ac oddiwrth y SAITH *ysbryd* sydd gerbron ei orseddfainge ef; ac oddiwrth *Iesu Grist*." Dyma hi'n lân o'r diwedd! Tad, Mab, ac Ysbryd yw'r iaith gyffredin; ond dere di, y mae'n rhaid i ti newid dy gân bellach, oblegid Tad, *saith Ysbryd*, a Mab sydd yma.

I ti, yr hwn wyt Dad, Mab, ac Ysbryd, meddi di ar ddiwedd dy weddi; nid felly mwy meddaf finnau, ond os mynni fod yn eithaf *orthodox*, mae'n rhaid i ti ddywedyd o hyn allan, "I ti, yr hwn wyt Dad, Mab, a saith Ysbryd, naw person ac un Duw." Nid yw'r undodwr ddim yn *orthodox* yn dy olwg di, am fod dau berson yn eisiau yn ei weddi ef; 'dwyt tithau druan, er dy holl fost, ddim yn *orthodox* chwaith, oblegid y mae chwech o'r naw yn eisiau yn dy weddi dithau. Sigla law bellach, a thaw a'th faldordd am *orthodoxy*, tra y mae dy *ddoxy* fach di dy hun mor gwtta. Ymaith a thi at y *naw* cyn beio mwy ar y rhai na fynant ond *un* gwrthrych addoliad. Beth a ddywedi di bellach? A oes gweddi yn ngeiriau Paul at y Corinthiaid? Os oes, yna y mae gweddi yng ngeiriau Ioan yn y Datguddiad? Fe allai y dywedi, fel y mae rhai wedi gwneuthur, mai yr Ysbryd Glân sydd i ni ddeall wrth y saith Ysbryd yng ngeiriau Ioan. Pa fodd y gellir deall hyn, nis gwn. Dywed Paul, fel y sylwasom yn barod, fod amryw ddoniau, eithr yr *un* Ysbryd. O ba le, gan hyny, y daeth y *saith?* Ai yr un peth yw yr *un* a *saith?* Mae llawer wedi ceisio profi, neu yn hytrach haeru, mai un yw tri, ond rhaid dywedyd bellach mai *un* yw *saith*, îe, WYTH, îe, NAW hefyd. Ond fy nghynghor i'r cyfryw ydyw, myned gyda brys i ddysgu'r *Numeration Table*. Beth oedd Ioan yn feddwl wrth y saith Ysbryd yma? Y mae'n amlwg oddiwrth amryw fannau yn y Datguddiad mai saith *angel*, neu saith gweinidog y saith eglwys, yw'r saith *Ysbryd* yma. "Y saith seren, angylion y saith eglwys ydynt." Dyma'r ysbrydion, angylion y saith eglwys, neu genhadon; oblegid ystyr y gair angel yw cennad: a dywed Dafydd fod Duw yn gwneuthur ei genhadon yn ysbrydion:—"Yr hwn," ebe fe, "sydd yn gwneuthur ei genhadon yn ysbrydion, a'i weinidogion yn dân fflamllyd." Os oes yma weddi, yna y mae gweinidogion y saith eglwys yn wrthrychau gweddi; os nad oes yma weddi, yna nid gweddi chwaith yw geiriau Paul at y Corinthiaid, oblegid y mae'r un ffurf, mor agos ag y gall dau awdwr arfer, i'w chael yn y ddau fan. "Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi," yw geiriau Paul. "*Gras* fyddo i chwi, a thangnefedd oddiwrth yr hwn sydd, a'r hwn a fu, a'r hwn sydd ar ddyfod, ac oddiwrth y saith ysbryd sydd gerbron ei orseddfainc ef, ac oddiwrth Iesu Grist," medd Ioan. Os dim, y mae'r olaf yn fwy tebyg i weddi na'r blaenaf. Ond gweddi yn wir! B'le gall dymuniad da fod yn weddi? Nid gweddio ar Dduw, ond annerch y Corinthiaid, y mae Paul. Nid oes yma ddim gair yn cael ei ddywedyd wrth Dduw, ond llythyr at y Corinthiaid ydyw, yn cynnwys dymuniad da yr apostol tuag attynt. Nid dywedyd y mae Paul, "Bydded dy *ras di*, Iesu Grist, dy gariad dithau Duw'r Tad, a'th gymdeithas dithau Duw'r Ysbryd Glân, gyda'r Corinthiaid," ond "Gras *ein* Harglwydd Iesu Grist, &c., fyddo *gyda chwi*." A'r Corinthiaid y mae Paul yn ymddiddan, ac nid â Duw; gan hynny nid oes yma ddim gweddi yn sicr. Efallai y dywedir fod y gair Amen ar ddiwedd yr adnod yn dangos mai gweddi yw'r geiriau. Mewn atteb i hyn digon yw sylwi fod Griesbach yn gadael allau y gair Amen o'i Destament Groeg ef, o herwydd ei fod yn eisiau mewn pedair o'r llaw-ysgrifau henaf, sef y rhai y mae efe yn nodi a'r llythyrenau A, B, F, G, neu yr Alexandrian, y Vatican, y Barcelian, a'r Harleian, ac eraill lai eu pwys. Y mae'r gair Amen yn cael ei adael allan hefyd gan John Williams, o'r Drefnewydd, yn ei gyfieithiad ef i'r Gymraeg o'r Testament Newydd, a elwir yn gyffredin Testament y Bedyddwyr. Felly nid oes yma etto ddim sail i gasglu mai gweddi yw geiriau yr apostol.

Ym mhellach etto, y mae geiriau yr apostol, yn lle bod yn brawf o'r drindod, yn hollol groes iddi. "Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chymdeithas, neu gyfranogiad (*koinonia*) o'r Ysbryd Glân," yw yr hyn a ysgrifenodd Paul. Fel hyn y mae llawer o drindodiaid dysgedig yn deall y gair *koinonia*, sef cyfranogiad o'r doniau gwyrthiol. Y mae'r un gair yn cael ei gyfieithu yn aml yn gyfraniad, a'r ferf yn gyfranu, yn y Testament Newydd: y gair sydd gan John Williams yn yr adnod dan sylw yw cymundeb. Meddwl yr adnod gan hyny yw, "ffafr neu gyssuron efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad neu gymeradwyaeth Duw, a chyfranogiad o ddoniau yr Ysbryd, fyddo gyda chwi oll.

Y mae yn werth sylw wrth adael, nad yw Paul byth yn arfer y gair Ysbryd

Glân wrth ddymuno'r fendith, fel ei gelwir, yn un man arall. Rhuf. i. 7: "Gras i chwi, a thangnefedd oddiwrth Dduw, ein Tad ni, a'r Arglwydd Iesu Grist." Drachefn, "Gras ein Harglwydd Iesu Grist fyddo gyda chwi." Ac felly yn gyffelyb ym mhob man arall. Pa fodd y gallasai hyn fod os oedd yn credu trindod? Pan mae Paul yn dywedyd ei fod yn gweddio; y mae yn dywedyd ar bwy yr oedd yn gweddio, sef y Tad, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. Rhuf. i. 6: "Yr wyf yn diolch i'm Duw trwy Iesu Grist drosoch chwi oll." 1 Cor. i. 4: "Yr ydwyf yn diolch i'm Duw bob amser drosoch chwi, am y gras Duw a'rodded i chwi yng Nghrist Iesu." 2 Cor. i. 3: "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd ni Iesu Grist, Tad y trugareddau, a Duw pob diddanwch." Eph. i. 3: "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a'n bendithiodd ni a phob bendith ysbrydol, yn y nefolion leoedd yng Nghrist Iesu." Eph. i. 16, 17: "Nid wyf yn peidio a diolch drosoch, gan wneuthur coffa am danoch yn fy ngweddiau; ar i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, Tad y gogoniant, roddi i chwi Ysbryd doethineb a datguddiad, trwy ei adnabod ef." Dyma gymdeithas neu gyfranogiad yr Ysbryd; ond ar bwy oedd Paul yn gweddio am dano? Ar Dduw ein Harglwydd Iesu Grist. Yr oedd Paul yn dymuno i ras Iesu Grist, cariad Duw, a chyfranogiad o'r Ysbryd Glân, fod gyda'r Corinthiaid; ond pan y byddai yn gweddio ar iddynt gael ysbryd doethineb a datguddiad, y mae yn cymeryd gofal i ddangos i ni pwy oedd gwrthrych ei weddi; "Duw ein Harglwydd Iesu Grist." Oddiwrth y cyfan, ynte, y mae yn amlwg i mi nad oes yma ddim sail i athrawiaeth y drindod; ac yr wyf yn barnu mai nid pell yw rhai trindodiaid dysgedig oddiwrth feddwl yr un peth; modd bynnag, wele'n canlyn feddyliau rhai o honynt:—

"Fel y byddoch gyfranogion o'r cynnorthwy dwyfol."—*Schleusner: Lex. in Nov. Test.* ar y gair *koinonia*, 2.

"Y mae Paul yn dymuno i'r Corinthiaid fod yn gyfranogion o'r manteision sydd yn tarddu i'r Cristnogion oddiwrth adnabyddiaeth ac arferiad o'r grefydd Gristnogol."—*J. G. Rosenmuller.*

"Yn ol ei arferiad cyffredin, y mae'r apostol yn galw'r Tad, *Duw*; a'r Mab, *Arglwydd.* Dechreuodd prynedigaeth yr hiliogaeth ddynol gyda'r Tad; daeth gras oddiwrth y Mab; a chafodd cyfraniad rhoddion ei ddiwallu gan yr Ysbryd Glân."—*Erasmus.*

"Yr wyf yn hytrach yn cymeryd *koinonia pneumatos* am 'gymundeb yr Ysbryd,' neu fwynhad cyffredin doniau ysbrydol, trwy yr hyn y mae pawb yn cael eu gwneuthur yn gyfranogion o honynt. Yn yr un ystyr hefyd yr arferir y gair *koinonia* yn 1 Cor. x. 16; Phil. i 5, ii. 1, a iii. 10; 1 Ioan i. 3, 6, 7. Y mae ein hawdwr [Dr. Hammond] yn dehongli *koinonia*, yn Phil. ii. 1, yn weithredol (*actively*) am haelioni yr Ysbryd Glân, ond heb un rheswm, o herwydd pwy a ganiatta iddo, fod y cyfryw ddehongliad yn cael ei dynu yn iawn oddiwrth y geiriau canlynol, fel pe byddai ymysgaroedd a thosturiaethau yn arwyddocau haelioni?"—*Le Clerc Suppl. to Hammond.*

"Gan nad yw'r Ysbryd Glân nemawr byth yn cael ei enwi ond mewn rhyw gyssylltiad a'i weithrediadau a'i effeithiau sanctaidd, a chan fod hyd yn oed y gair Ysbryd yn deilliaw oddiwrth feddylddrych dylanwad, y mae'r trawsenwad (*metonymy*) yn natturiol ac esmwyth iawn. Yn y lle hwn, ac yn Phil. xi. 1, y mae 'cymundeb yr Ysbryd,' yn amlwg, yn ymadrodd addas i osod allan gyfraniad o'r cynneddfau hyny i dderbyngarwch moesol dynion, (*moral susceptibilities of men*); y rhai ydynt yn ddymunol dros ben, ac yn hollol angenrheidiol i burdeb a dedwyddwch dychweledigion ein nhatur ni."—*Dr. J. P. Smith, Script. Test.*

"Y mae un peth, a dim ond un, lle y mae'r dystiolaeth dros athrawiaeth y drindod yn ymddangos yn ddiffygiol oll. Yno [2 Cor. xiii. 14] nid yw Iesu Grist na'r Ysbryd Glân ddim yn cael eu galw yn Dduw mewn geiriau pendant."—*Orthodox Presbyterian*, Cyhoeddiad Belfast, am Gorphenhaf, 1830.

"Pob bendith ysbrydol a thymhorol a fyddo gyda chwi oddiwrth Dduw ein Tad, fel y ffynnon o honynt, ac oddiwrth yr Arglwydd Iesu Grist, fel y cyfrwng trwy yr hwn eu trosglwyddir i ni."—*Dr. Wells.* Lled gyffelyb yw Salmeron, Pyle, Dr. Adam Clarke ac eraill.

Pan y mae Whitaker oddiwrth y geiriau "Gras ein Harglwydd Iesu Grist fyddo gyda chwi oll," a'r cyffelyb, yn casglu eu bod yn cynnwys ymbil neu weddi ar Iesu Grist, y mae Coleridge yn dywedyd mewn syndod, "Gweddi! nid gweddi yn sier yw dymuniad duwiol. Nid gweddio ar, neu addoli angylion yw dywedyd, "Bydded i'r angylion da fod gyda chwi." Y mae hanfod addoliad crefyddol yn gynnwysedig mewn priodoli, trwy weddi neu foliant, bresenoldeb angenrheidiol i unrhyw wrthddrych—yr hyn ni ellir ei wahaniaethu pan fyddo'r gwrthrych yn bresennol i'r teimladau—gallwn yn ddiogel ddehongli addoliad fel cyfaddefiad o bresenoldeb gwirioneddol ac angenrheidiol bôd deallus pan nad yw yn bresenol i'n teimladau. "Bydded i blanedau llwyddiannus daflu eu dylanwad arnoch," sydd ymadrodd digon ffol ac ofergoelus; ond byddai dywedyd mewn prysurdeb, "O chwi blanedau, yr wyf yn ymbil arnoch i daflu eich dylanwad arnaf," byddai hyn yn eilunaddoliaeth."—*S. T. Coleridge—Literary Remains, vol.* iv. *p.* 307—8.

"Nid yw'r geiriau heddwch a thangnefedd fyddo gyda chwi, ond ffurf o annerch neu gyfarch, yn cynnwys pob dymuniad da, ond nid gweddi syml ar y personau a enwir yn y ffurf—ac nid yw'r drefn o osod y geiriau i lawr ddim yn dangos urddas neu flaenoriaeth yn yr ysgrythyr."—*Dr. Hammond.*

Wel, dyna ddigon bellach i ddarbwyllo un dyn ystyriol, nad oes fawr sail yma, hyd yn oed ym marn trindodiaid dysgedig, i'r athrawiaeth o dri pherson ac un Duw. Af, yn fy llythyr nesaf, at y mynydd mawr, a'r tri thyst nefol; ac ymdrechaf ddangos ei fod yn anfeidrol llai na chrug y wâdd yn y diwedd. Yn awr gorphwysaf am y tro hwn etto, yr eiddoch, O. EVANS.

YR EGLWYS SEFYDLEDIG.

"Gludo aur ein gwlad arab,
I wychu pen merch y Pab."

MR. YMOFYNYDD,—Fe allai na fyddai yn anfuddiol gan lawer o'ch darllenwyr i gael rhyw ychydig o wybodaeth pa faint o arian y wlad y mae yr Eglwys Sefydledig yn ei wario yn flynyddol; neu mewn geiriau eraill, pa faint y mae hi yn costio i'r wlad, tra y mae naw o bob deg o'r trigolion yn ymneilduwyr oddiwrthi. Heblaw yr athrawiaethau cyfeiliornus ac anysgrythyrol y mae hi yn daenu, a'r niwed mawr a wna i wir grefydd, a mogi yspryd rhyddymofyniad. Nid awn yn bresennol idd ei holrhain o amser Harri VIII, nac ychwaith i ddangos ei gweithredoedd mileinig, drwg, ac annuwiol, o'r amser hwnw i lawr hyd atom ni, gan fy mod yn hyderu y gwna rhyw rhai o'ch gohebwyr medrus, galluog, a thalentog, gymeryd y gorchwyl mewn llaw, a'i drin i bwrpas. Fy unig ddyben i yn gosod hyn o flaen y cyhoedd yw, fel y byddo yn foddion i agor llygaid y rhai hynny nad ydynt erioed wedi ystyried y niwaid mawr y mae'r Eglwys yn ei wneuthur.

Yn y lle cyntaf, y mae yn treisio cydwybodau dynion, trwy eu gorfodi i dalu at sefydliad o grefydd (?) sydd yn groes i'w golygiadau; ac yn yr ail lle, y mae yn arwain i ddiogi, penrhyddid, ac anffyddiaeth, am fod ei chyfoeth yn cynnyrchu y cyfryw. Fe gyfaddefa pawb mai gwreiddyn pob drwg yw *ariangarwch.* Ac yn y trydydd lle, y mae yn gwobrwyo annheilyngdod, am ei bod yn rhoddi amryw o ddegau o filoedd o bunnau yn flynyddol i'r prif swyddogion am wneuthur ond y peth nesaf i ddim, gyda gloddesta a thorden, tra nad ydyw yn rhoddi ond dogn lled fechan i lawer o'r dosbarth llafurus a gweithgar. Y mae yn llawn bryd i bawb ag sydd yn caru llwyddiant efengyl y tangnefedd, i waeddu am ysgariad oddiwrth "ferch y butain fawr," yr hon yw mam puteindra y ddaear.

Yn ol y cyfrifon diweddaf a wnaed, ymddengys nad ydyw yr Eglwys yn costio dim llai na naw miliwn, pedwar cant, a phedwar-ar-bymtheg a deugain o filoedd o bunnau yn flynyddol. Ddarllenydd! onid yw y swm uchod yn ddigon i beri i dy wallt sefyll ar dy goryn? Ond aros ronyn, fe allai y gellir ei throi yn fwy dealladwy fel hyn, am nad ydwyt yn gyfarwydd à symiau mor fawr. Y mae yr Eglwys

yn treulio bob wythnos trwy y flwyddyn y swm o gant a phedwar ugain ac un o filloedd o bunnau, naw cant a thair, un swllt ar bymtheg, ac un geiniog ar ddeg. Y mae'n treulio bob dydd trwy'r flwyddyn y swm o bum mil ar hugain o bunnau, naw cant, pedwar ugain a chwech, pum swllt, a thair ceiniog a ffyrling. Y mae yn treulio bob dydd a nos, a gosod y ddau gyda'u gilydd, y swm o un fil, pum cant, a phedwar ugain a dwy o bunnau, pymtheg swllt, a dwy a dimai. Y mae yn treulio bob mynyd trwy y flwyddyn, y swm o chwech punt ar hugain, saith swllt, a saith ceiniog.

Y mae yn bawdd casglu oddiwrth yr ystadegau uchod fod yr Eglwys yn faich trwm ar ysgwyddau y wladwriaeth, yn enwedig ar yr amser caled presennol, tra y mae beichiau eraill hefyd yn gwasgu ac yn llethu y deiliaid i'r llawr. Er ei holl rwysg, ei chyfoeth, a'i rhodres, nid ydyw yn ddiogel; nis gellir dywedyd am dani, "Fel yr oedd yn y dechreuad, felly y mae yr awr hon." O nage, y mae mewn dyryswch dros ei phen—y mae rhyw gynhwrf yn y gwersyll, ymrafael, ac ymbleidio tu fewn; mae'r ty wedi ymranu yn ei erbyn ei hun, a'r gelynion tu allan yn codi gwrthgloddiau i'w erbyn. Esgob Philpotts o Exeter sydd wedi bod yn offeryn lled dda i dynu dan ei mhuriau, ac os medrwn "arwyddion yr amserau," ni phetruswn dywedyd bod dydd ei thranedigaeth yn agosau. Ond odid, ddarllenydd, nad ydwyt yn cofio yn bur dda am y Traethawd yn yr "Ymofynydd" am fis Medi diweddaf, ar "Eglwys Loegr, ac Ail-enedigaeth Babanod trwy Fedydd." Y mae yr helynt hwnw heb ei ddwyn i derfyniad etto.

Ydwyf, yr eiddoch yn ostyngedig, RHYDDERCH FARFGOCH.

Pentregwenlas.

SYLWADAU AR "DDUW A'I DDYBENION YN OL EI AIR."

MR. GOL.—Fe debygwn i mai y llwybr priodol i ddwyn dadl ym mlaen yw dangos rhesymau y gwrthwynebydd, yn un ac un, gan roddi i bob rheswm atteb llawn a chywir. Pa mor bell y mae y dull hwn yn cael ei ddefnyddio gan Mr Jones yn ei lythyr olaf attaf, y mae eich darllenwyr yn gwybod. Gan fy mod yn casglu mai prif reswm fy ngwrthwynebydd yn erbyn cosp ddiddiwedd yw, am mai Duw, cariad yw. Gwnaf aros ar y pwynt gan sylwi fod cariad Duw yn cael ei amlygu mewn cyduniad a'i berffeithderau eraill, ac nid yw ei gariad yn cael ei oddef fel ag i attal eu cydweithrediad cydgordiol. Mae yr ysgrythyr yn ein dysgu mai "Goleuni yw Duw," neu sanctaiddrwydd yw Duw yn gystal a chariad: nis gall ei gariad, o ganlyniad, fod yn annghyson a'i sanctaiddrwydd,

Fe addefir fod Duw yn caru yr angylion gyda hyfrydwch cyn iddynt bechu; ond dywedyd fod ei gariad atynt yr unrhyw wedi iddynt bechu, yw dywedyd mewn geiriau eraill, ei fod yn ymfoddloni mewn annghyfiawnder, yr hyn sydd annghyson a'i santeiddrwydd, ac hyn hefyd oedd pechod damniol dynion (2 Thes. ii. 12). Mae Duw yn caru rhinwedd a chyfiawnder yn fwy nag y câr greaduriad moesol yn amddifad o'r cyfryw. Ac nid ydyw yr ysgrythyrau byth yn llefaru yn erbyn un math o bechaduriaid yn fwy llym nac yn erbyn y rhai a gymmerent ddaioni Duw yn achlysur i bechu, a throi hyd yn oed ras Duw i drythyllwch. Mae teffynau cariad Duw i'w weled yn Ioan iii. 16: "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd ei unigaenedig Fab, fel na *choller* pwy bynnag a GREDO ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." Yr wyf yn dymuno gwybod trwy ba awdurdod y gwna Mr. Jones ei estyn i anffyddwyr didduw ac annghredwyr gwargaled? Y mae cariad Duw, fel y dywedais o'r blaen, yn dwyn perthynas a nodwedd foesol dynion. Nid ydym i feddwl fod yr un cariad ganddo at y llofrudd tra yn trochi ei ddwylaw yn ngwaed y diniwaid, ag a fedd at y dyn duwiol, bwyd a diod yr hwn yw gwneuthur ewyllys ei Dduw.

Dywedais y dylai pechaduriaid ystyfnig gael eu troi o gymdeithas y nefoedd. I hyn y mae Jones yn atteb,—"Dylent, bid sicr, os na *all* Duw eu gwella." Yn

ddiau y *gall* Duw wneuthur eppaod yn ddynion, a dynion yn archangylion. Fe *allasai* attal mynediad pechod a thrueni i'r byd, a *gallasai* eu difodi ar unwaith; o leiaf, felly yr ymddengys i farwolion byr eu golwg. Ond fe wyddoch chwi, Syr, mai ein gwaith ni yw nid cymaint beth *all* Duw, ond beth y mae ef *wedi* ei wneuthur, *yn* ei wneuthur, ac *a* wna ef. Gan fod ei gariad wedi goddef i bechod ddyfod i'r byd, pa fodd yr ymddengys y bydd i'w gariad yn y diwedd beri i hen *rebels* gwrthryfelgar gael eu gwneuthur yn santaidd? Os attebir, er na wneir hyn yn y byd yma, y gwneir ef yn uffern, yn amser priodol y Bôd mawr; gofynaf, pa amser? meddylier ym mhen can myrddiwn o flyneddau, mwy neu lai? I hyn yr attebaf, gan ofyn ym mhellach, a fydd gan Dduw fwy o gariad i ewyllysio, neu fwy o allu i ddwyn i ben, ddedwyddwch ei greaduriaid gan myrddiwn o flynyddau i dd'od, nag a fedd ef yn awr? Os na fydd, pa fodd y gwna ei gariad a'i allu adael iddo ddinystrio pechod y pryd hwnw yn fwy nag yn awr? Os dywedir, oblegid y bydd pechaduriaid erbyn y pryd hwnw wedi dyoddef holl euogrwydd pechod; attebaf innau fod y cwestiwn yn cael ei newid. Yn ol hyn yna, nid *cariad* a *gallu* fydd yn rhoi terfyn ar y gosb, ond *cyfiawnder*. Y cwestiwn placn ydyw hyn, A ydyw bodoldeb pechod a thrueni yn annghyson a'i berffeithderau dwyfol? Os ydynt, ni byddai pechod a thrueni yn bodoli am foment; os nad ydynt, gall pechod a thrueni fodoli am byth. Yr wyf yn dymuno ar Mr. Jones ddal sylw ar hyn, ac yna fe'i argyhoeddid yn y fan nad all yr adferiad gael ei phrofi oddiwrth *gariad* Duw.

Nid wyf yn gwadu, modd bynnag, fod Duw yn caru ei greaduriaid, ac wedi gwneuthur darpariaeth digonol at eu dedwyddwch; ond nid wyf yn meddwl fod pob peth perthynol i'w greaduriaid, yn cael ei achosi gan berffeithderau Duw; oblegid yna nis gallasai neb o honom fyth bechu, gan nas gall Duw fod yn awdwr pechod. Fel y canlyn y dywed Grotius yn ei *Truth of Christian Religion*, sec. 8, "When we say that God is the cause of all things, we mean of all such things as have a real existence; which is no reason why those things themselves should not be the cause of some accidents, such as actions are. God created man, and some other intelligencies superior to man, with a liberty of acting; which liberty of acting is not in itself evil, but may be the cause of something that is evil; and to make God the author of evils of this kind, which are called 'moral evils,' is the highest *wickedness*."

Nid yw Jones yn dywedyd dim am ryddid moesol, er mai ar yr egwyddor hon y gellir cyfrif yn rhesymol ddyfodiad pechod a thrueni i'r byd; ac y mae yn gwasanaethu yn dda i gymodi ein parhad diddiwedd a pherffeithderau Duw. Mae yn *fact*, nad yw ei gariad yn ei attal rhag gwneuthur creaduriaid yn rhydd; ac o ganlyniad nis gall ei gariad ofyn iddo ddinystrio eu rhyddid; oblegid byddai yr un peth a dywedyd fod Duw yn rhwym o ddinystrio gwaith ei ddwylaw ei hun. Rhaid i holl gynlluniau cariad dwyfol tuag at ddedwyddwch creaduriaid rhydd a deallgar ddwyn perthynas a'u rhyddid; ac os trwy gamddefnydd o'r egwyddor yma y mae bwriadau graslawn y nefoedd yn cael eu siomi, mae y bai ar y creadur ac nid ar y Creawdwr. Dywedyd nad yw dyn yn dda am fod ei elusenau rai gweithiau yn cael eu hestyn i wrthrychau, y rhai a'i camddefnyddiant, yw gosod eu drygau hwy ar ei gyfrif ef, yr hyn sydd berfaith annghyson a'n holl *ideas* am gyfiawnder a daioni.

Mae llawer o ymadroddion yn llythyr olaf Mr. Jones yn amddifad o chwaeth dda—yn anweddaidd i'w llefaru gan ddyn sy'n ofni Duw, serch dyn sydd yn cymeryd arno y swydd o addysgu eraill i wasanaethu y Goruchaf—yn groes i bob rhesymiad teg, ac yn ddirmyg i ysgolhaig eu hysgrifnu. Os caf lawer o'r *stuff* hyn, caiff lonyddwch hir genyf. Yn wir, Mr. Gol, mae yn ofid genyf fod dadl fel hon, ag sy'n dwyn perthynas a sefyllfa ddyfodol dyn, yn cael ei dwyn yn mlaen mor wael. Mi ddymunwn i'ch ddarllenwyr i ystyried fy llythyrau yn y goleu o fod yn ymgeisio dadymchwelyd rhesymau Jones, ac nid yn y golau o'u bod wedi eu hamcanu tuag at brofi cospedigaeth ddiddiwedd. Ond y mae y maes helaeth hwnw heb gael braidd ei gyffwrdd. Nid ydwyf wedi dyfod allan gyda'r amcan i roddi o flaen eich darllenwyr y prawfiadau lluosog a phenderfynol sydd dros gospedigaeth dra-

gwyddol. A chofied eich darllenwyr fod yr hyn a wnaed er dadymchwelyd Mr. Jones yn y pwynt yma wedi ei ysgrifenu gan un ieuanc, a digon annghydnabyddus â duwinyddiaeth a gweithiau duwinyddion, yn ngwahanol dafodieithoedd y byd. Beth pe cawsai eich darllenwyr weled ysgrifen Mr, Jones yn cael ei darnio gan ddoctoriaid oedranus, dysgedig, a medrus, yn ngwahanol lwythau yr uniawngred? Gan fy mod yn deall fod y ddadl yma yn cyfnewid ychydig yn y misoedd canlynol, fel ag i fod nid yn ddadl ar yr "Adferiad," ond ar "Ewyllys Rydd" ac "Anghenrwydd," efallai, Mr. Gol, y goddefwch i mi, cyn rhoi heibio, ddwyn ar gof i Mr. Jones, fod y gwaith o weini gobaith i ragrithiwr, ac addaw dedwyddwch i annuwiol meddw, anllad, a chableddus, yn waith annghydweddol iawn i ddyn sy'n derbyn cyflog arianol er mwyn dysgu i eraill y ffordd i'r nefoedd, yr hon sy'n cael ei chyfenwi yn y Testament Newydd yn "llwybr cul," ac nid y "ffordd lydan sy'n arwain i ddystryw."

Chwi ddarllenwyr yr "Ymofynydd," O nad allwn "lefaru geirian o dân, ac ymadroddion o fellt y Goruchaf," fel ag i fod yn effeithiol i'ch cadw rhag myned i'r—

> "Ffwrn, lle mae dwrn Duw,
> Yn ennyn dynion annuw;
> Oh! dorf hyn, darfu eu haf,
> Dan grychias Duw Goruchaf."

Chwi, fy nghyd-drafaelwyr i'r byd lle mae settlo cyfrif, holwch eich hunain gerbron chwiliwr y galon; na ddywedwch heddwch pryd nad oes heddwch; eithr ystyriwch eich ffyrdd a dychwelwch at yr Arglwydd mewn edifeirwch, ac efe a drugarha wrthych; ie, dychwelwch at Grist fel y caffoch fywyd. Yr ydwyf yn diolch i Dduw mai *son* am uffern wyf, ac nid gwaeddi, "Fe'm poenir yn y fflam hon," mai rhybyddio yr ydwyf, ac heb orfod ar neb o honoch fyned yno; eithr fod modd i bawb o honoch gael diangfa rhag y digofaint sydd ar ddyfod. Pa mor agos bynnag y dichon fod rhai o honoch i'r fflam uffernol, y mae Crist y Gwaredwr rhyngoch a'r drws, ni chewch fyned yno o'i fodd. Efe yw anwyl Fab y Goruchaf, "gwrandewch arno ef;" wele, tywalltodd ei enaid i farwolaeth er mwyn gwaredu eich bywyd o ddystryw. A fedrwch chwi gefnu arno a dewis pechod yn ei le? O! bechaduriaid, "byddwch synwyrol;" annuwiolion gwlad efengyl, "cymerwch addysg." "Cusenwch y Mab rhag iddo ddigio, a'ch dyfetha chwi o'r ffordd, pan gyneuo ei lid ef ond ychydig." Yr eiddoch yn ddifrifol, DAVID EVANS.

Wesleyan Chapel House, Lampeter.

TRAETHAWD AR ONESTRWYDD.

(*Parhad tudal.* 108.)

PE byddai onestrwydd yn cael meddiant cyffredinol ar galonau dynion, y fath canlyniadau dedwydd a chysurlawn a gymerent le! O, yr agwedd nefol a fyddai ar ein byd, lladron, yspeilwyr, cribddeilwyr, twyllwyr, a phob math o ddynion hoccedus a gwenieithus dros bedwar ban y byd, yn cael eu hargyhoeddi o'u twyll, drygioni, a'u camsynied, ac yn dyfod i weled mai yn nedwyddwch eu cyd-ddynion y mae eu holl wynfyd a'u cysur hwy eu hunain yn bodoli; ac, yn ganlynol, yn alltudio o'u mynwesau bob anonestrwydd i ebargofiant bythol, a gweithredu uniondeb a chyfiawnder tuag at bawb yn mhob amgylchiad, yn eu holl drafodaeth neu fasnach. Ni fyddai gwedy'n achos i un dyn ofni myned allan ar ol elo Tad y dydd is gaerau y gorllewin, rhag cael ei yspeilio gan neb—gallai pawb orphwys yn dawel a diofn ar eu gwelyau heb orfod wrth glo na bàr ar eu drysau, nac un math o ddiogelwch arall, ond yn un unig cyn belled ag y byddo hyny yn ofynol er cadw ymaith y creaduriaid afresymol a rheibus, canys pwy ydyw a ddrygai ei frawd dim ond o herwydd ei bod yn nos? Neb rhesymol ac onest.

Pe bai onestrwydd yn teyrnasu, pawb masnachwyr a chelfyddydwyr, ïe, pawb dynion o bob gradd ac oedran fyddent yn ymwneyd a chyfiawnder ac uniondeb yn eu holl weithredoedd. Y gwerthwr a ofynai bris am ei nwyfau fel pe byddai ei hun yn eu prynu, ac yntau y prynwr yr un wedd yn cynnyg am y nwyf yr un sut a phe byddai yn ei werthu ei hunan i ryw un arall. Y gweithiwr a wnelai ei waith yn gwbl mor ddidwyll ac onest yn absenoldeb ei oruchwylydd neu feistr, ac y gwnai yn ei bresenoldeb ef; ni fynai ei dwyllo mewn un dull na modd. Yr ochr arall, y meistr yntau a ymddengys yn gydwybodol ac onest at ei weithiwr, gan roddi iddo'r hyn fyddai yn gyfiawn a theilwng am ei waith; ni cheisia ei wringo a'i orthrymu o herwydd mai gweithiwr tylawd ydyw, eithr ymddangosa atto yr un modd a phe byddai yn yr unrhyw sefyllfa, ac wedi cyflawni yr un gorchwyl ei hunan. Gallai y plentyn bychan, cyn gynted ag y byddo yn alluog i rodianna a siarad yn groyw, fyned i'r masnachdy i gyrchu unrhyw nwyfau yn gystal a'r dyn mwyaf gwybodus; gallai geneth fechan yr amaethydd gymeryd yr ymenyn, caws, &c., tua'r farchnad yr un mor ddiogel yn hollol a'i mham; a'r llangc ieuange fyned a'r fuwch a'r llo, yr ych, neu y ceffyl, i'r ffair, i'w gwerthu, yn gystal a'i dad oedranus, o herwydd ni fyddai neb yn y ffair a'r farchnad a'u twyllai neu a'u drygai yn y mesur lleiaf. Byddai pawb yn ymdrechu hyd eithaf eu galluoedd a'u gwybodaeth i ymfucheddu yn ol y rheol euraidd,—"Gwnewch fel y dymunech wneyd â chwi."

Amrywiol yw yr annogaethau i ni i ddilyn llwybrau onestrwydd a chyfiawnder. Beth sydd mwy dymunol a dedwydd na bod pawb yn ymwneud ag onestrwydd? Y mae hyd yn oed y lleidr a'r cribddeiliwr pennaf yn caru onestrwydd mewn eraill; er ei fod ef ei hun yn gamsyniol yn gwneud drygioni, y mae yn hoff gan ei galon ddyn onest a didwyll. Os felly yw dyn drwg gyda golwg ar onestrwydd, pa faint mwy y doeth a'r da? O! gan hyny byddwn oll yn gyfiawn at ein gilydd, gan mai hyn yw diogelwch cymdeithas a gorseddau, yn nghyd a lles a dedwyddwch y rhil ddynol.

Dywed Pope, "An honest man is the noblest work of God." Wel, os dyn gonest yw y godidocaf o holl waith y Creawdwr, (fel yr ymddengys y mae) pwy yw yr anystyriol hwnw na ymdrecha gyrhaedd y cymeriad ardderchog hyn; pwy yw y gwallgofddyn na wna bob ymegniad i gael iddo ei hun y cyfenwad (*title*) anrhydeddus a mawreddawg o fod y prydferthaf a rhagoraf o holl waith Duw?

Nid yn unig y mae onestrwydd yn ein gwneud yn aelodau cymhwys o gymdeithas, a deiliaid addas llywodraeth a gwlad wareiddiedig, fel bodau deallus a rhesymol, trwy greu yn ein plith gariad a brawdgarwch, a pheri i ni fod a'r serch a'r ymddiredolaeth gryfaf a phuraf yn ein gilydd, ond hefyd y mae yn ein gwneud yn gymeradwy gydag Arglwydd yr arglwyddi a Brenhin y brenhinoedd—yn ein gwneud yn blant yr anfarwol Dduw, Tad pob daioni, a Ffynnon ein bywyd a'n holl gysuron—yn ein gwneud yn addas ddeiliaid o'i nefol wlad tudraw i angau a'r bedd. Caf yma ddifynu rhai manau o'r dwyfol air, lle y gorchymynir ac yr annogir ni i weithredu cyfiawnder ac onestrwydd. Yn y gorchymynion a roddwyd trwy Moses gynt, gwaherddir torriad y rhinwedd hon; yr wythfed gorchymyn ydyw, "Na ladratta;" a'r ddegfed eilwaith i'r un ystyr, "Na chwennych dy dy gymydog, na'i ych, na'i asyn, na dim a'r sydd yn eiddo iddo." Solomon a ddywed, "Y neb a rodia yn uniawn a rodia yn diogel; ond y neb a gam-dry ei ffyrdd a fydd hynod. Ffynnon bywyd yw genau y cyfiawn: ond trawsedd a gau ar enau y drygionus. Fel y mae y corwynt yn myned heibio, felly ni bydd y drygionus mwy: ond y cyfiawn sydd sylfaen a bery byth. Y cyfiawn nid ysgog byth;" Diar. x. 9, 11, 25, 30. "Cloriannau annghyfiawn sydd ffiaidd gan yr Arglwydd: ond carreg uniawn sydd foddlawn ganddo ef," pen. xv. 9; a gellid dyfynu lluaws eraill heblaw y rhai uchod.

O! bydded pawb dynion yn ymestyn at gyflawnder ac onestrwydd; gwerthfawrogwn yr egwyddorion nefol hyn trwy ystod ein bywyd—ymfucheddwn yn unol a hwynt ar bob adeg; gochelwn ein bod bob amser yn ymddwyn yn onest a didwyll yn yr oll yr ymdrafodwn ag ef; gochelwn weniaith, rhagrith, ac anwiredd yn ein hiaith yn gystal a'n gweithredoedd at neb mwy na'u gilydd; ymarferwn

onestrwyddd yn foreu a hwyr ar bob achlysur; defnyddiwn bob adeg a chyfleusdra er addysgu ac hyfforddi y rhai ieuaine a'r anwybodus yn llwybrau uniondeb, er goleuo ac argyhoeddi y meddyliau tywyll a chyfeiliornus lladron, yspeilwyr, cribddeilwyr, anwireddwyr, a phob twyllwyr gwenieithus o eu hegwyddorion gau a thruenus, fel y caffont weled rhinwedd yn ei lliw a'i llun priodol a hawddgar, ac y delont i'w gwerthfawrogi yn fwy na dim; fel y delont i'r wybodaeth mai ar hawddfyd a llwyddiant eu cymmydogion y mae yr eiddynt hwy eu hunain yn ymddibynu yn hollol; ac yn ganlynol i hyn yn arfer uniondeb, cyfiawnder, ac onestrwydd at eu cyd-ddynion yn mhob peth a ddywedont ac y wnelont, gan mai yn hyn yn unig y bedola gwir les, mwyniant, a dedwyddwch tymhorol a thragwyddol pawb dynion.

Rhag fy mod trwy fy eiddilwch mabaidd yn blino eich amynedd yn fy ngwaith yn traethodu am y tro cyntaf yn fy myw, terfynaf yn awr trwy ganu o wraidd fy nghalon y llinellau canlynol, yn y gobaith y bydd y traethawd hwn (llwyddiannus a'i peidio) o ryw ychydig o fudd i fy nghyd-frodyr, ac yn neilldnol ac yn bennaf i mi fy hunan, i fy nghadarnhau yn yr egwyddor nefol hon, ac hefyd i changu a llyfnhau fy meddwl, a'i wneud yn addasach i draethu ar ryw destun arall mewn amser dyfodol:

Yr hardd bendefiges, onestrwydd, a gaffo,
  Lwyr feddiant ar galon pob dyn trwy y byd;
Er hollol ddadwreiddio o'n mysg, ac alltudio
  Anwiredd a rhagrith a hocced yn nghyd;
Cribddeilwyr hocedus, pawb dynion yspeilgar,
  Yn hen ac yn ieuanc, dyfoethog a th'lawd,
A welant ei gwyneb gorwychawl a llachar,
  Er d'od i weithredu at bawb fal eu brawd.

Onestrwydd fo'n mynwes morwynion a gweision,
  Meistresi a meistri trwy bob cwr a gwlad,
Hon beunydd llywydded eu holl oruchwylion,
  Er cadw'u calonau rhag pob twyll a brad;
Y gweithiwr yn wastad a gofio'i ddyledswydd,
  Ac hefyd y meistr, yr unwedd boed ef,
Ar bob rhyw achlysur yn gwneuthur onestrwydd,
  Fal delo ein dacar yn debyg i'r nef.

CRIPPANWR.

PA FODD MAE TAENU CRISTNOGRWYDD?

YN gyntaf, dylai pob dyn deimlo nas gall effeithio ar galonau a character dynion eraill, gyffelyb gymaint ag y gall ar ei galon ei hun; a bod i'w zel dros helaethu tertynau Cristnogrwydd i ymddangos yn bennaf yn ei waith yn estyn ei heffeithiau drwy ei feddwl a'i fuchedd ei hun. Cofied ei fod yn helaethu teyrnas Dduw pan y byddo yn cryfhau egwyddorion moesoldeb a chrefydd yn ei feddwl ei hun, mor wirioneddol a phan y byddo yn cyfranu y rhai'n i eraill. Gartref mae ein gofal blaenaf; yn ein mynwesau ein hunain mae ein gwaith pennaf. Gwag yw ein siarad am ein cur a'n gofal am eneidiau dynion eraill, pan yr ydym yn esgeuluso yr eiddo'm ein hunain. Heb rinwedd a chrefydd bersonol, nis gallwn, hyd yn oed pe mynem, wneud llawer dros achos Crist. Trwy ymdrechu cywiro a phuro ein syniadau am Dduw a dyledswydd, yn unig y gallwn roddi golygiadau eglur a buddiol i eraill Rhaid i ni yn gyntaf deimlo nerth crefydd, onidê nid allwn o ddifrif ac yn effeithiol annog dynion i'w chofleidio. A tynwn, ni ynte, daenu gwir Gristnogrwydd? Bydded i ni edrych ar ei bod wedi ei phlanna

ac wedi gwreiddio yn ein meddyliau ein hunain, ac na chaffo unrhyw ymyraeth dros eraill i'n tynu oddiwrth geisio adnabod ein hunain, a chyflawni ein dyledswyddau personol a theuluaidd.

Y mae'r ail ffordd mewn undeb agos a'r cyntaf. Y ffordd honno yw esiampl. Dyma foddion sydd o fewn cyrhaedd pawb. Bydded ein sefyllfa yn y byd beth a fyddo, y mae iddi ddyledswyddau, yn y ffyddlon gyflawniad o ba rai y gallwn wneud llawer dros achos moesoldeb a duwioldeb. Ni ellir cyfrif yn hawdd pa faint yw effeithioldeb y moddion hyn tuag at daenu Cristnogrwydd. Y mae rhyw allu rhyfedd o ddeniadol mewn esiampl, yn trawsffurfio yr edrychwr yn ddystaw, ac yn ei ddenu heb ymddangosiad o ymdrech. Y mae buchedd gwir Gristnogol yn well na chyfraniadau helaeth o gyfoeth, tuag at daenu Cristnogrwydd. Y peth sydd yn ymddangos yn fwyaf penodol yn addysgiadau Crist ar y pwynt hwn ydyw, ei fod yn rhaid i ni adael "i ddynion weled ein gweithredoedd da," os mynwn iddynt "ogoneddu ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." Bydded i ddynion gael gweled ynom, fod crefydd yn rhywbeth sylweddol, rhywbeth yn amgen na geiriau soniarus a gwag, yn attalfa rhag pechod, yn amddiffynfa rhag profedigaeth, yn ffynonell gweithrediad uniawn a defnyddiol; bydded iddynt gael ei gweled, nid fel ffurf wâg, neu deimlad a fyddo yn myned heibio yn ebrwydd, ond fel ein cydymaith trwy fywyd, yn cyfranu o'i phurdeb i'n galwedigaethau beunyddiol, yn ein canlyn ni i'n cartref-leoedd, yn gosod gwarchae oddiamgylch i'n huniondeb yn y masnach-leoedd, yn mwyneiddio ein tymerau mewn awr o brofedigaeth, yn ein tueddu yn barhaus i gydymdeimlad a'n cyd-ddynion, i amynedd a sirioldeb dan drallodion, i farnu barn cariad, ac i aberthu dros ddaioni eraill; ac yna gallwn obeithio na fydd i'n "goleuni lewyrchu" yn ofer; y bydd i gydwybod rhyw gysgadur i cael ei dihuno wrth weled y dystiolaeth hon dros ragoroldeb a defnyddioldeb crefydd, y bydd i ryw fydol ddyn o broffeswr i ddysgu ei rwymedigaethau, ac i gywilyddio am ei anghyssondeb pechadurus; ac y bydd i rai ag nad yw y profion cyffredin dros ein crefydd wedi cwbl ennill eu crediniaeth, i gael eu dwyn i adnabod y gwirionedd, wrth weled y prawf gweithredol yma o nefol darddiad y grefydd Gristnogol. Dyma waith sydd o fewn cyrhaedd pob un o honom; gwaith ydyw nad allwn ei esgeuluso heb anffyddlondeb i'r efengyl.

Oddiwrth y sylwadau yma ar y ddyledswydd o gynnorthwyo Cristnogrwydd trwy ein esiampl, ni fydd neb i feddwl, ein bod i gymeryd arnom y wisg o grefydd heb ymddangosiad, neu fod y Cristion i roi ei fryd ar wneuthur ei hun a'i weithredoedd da yn amlwg er mwyn i ddynion eu gweled a'u hefelychu. Yn yr un llyfr, ie, yn yr un bregeth o eiddo Crist ar y mynydd, lle y gorchymynir "fod i'n goleuni i lewyrchu ger bron dynion," gelwir arnom i ochelyd pob rhyw ymddangosiad gwag ogoneddus; eithr yn hytrach i ddewis lle dirgel at wneud ein helusenau a'n gweddiau yno. Nid oes dim a ddinystria effaith esiampl gymaint a rhoddi'r bryd ar wneud ymddangosiad. Daioni, a fyddo i ennill dynion i'w barchu a'i efelychu, a raid fod yn ostyngedig, yn ddiryfyg, a dirodres; nid yn ymddangosgar, nid yn aros am gyfleusdra i wneud rhywbeth mawr, ond yn amlygu ei hun megis heb ymdrech ac heb fwriad braidd, ond i wasanaethu Duw a llesoli dynion,—mewn gair, y fath a fyddo yn dwyn argyhoeddiad i'r edrychwr ei fod yn tarddu oddiar egwyddorion a dymuniadau cywir. Daioni o'r fath hyn nid â byth ar goll. Y mae yn cael ei ogoneddu gan y gostyngeiddrwydd sydd yn ei amgylchynu, ac fel goleuadau y ffurfafen y mae ei lewyrch yn tòri allan trwy'r cymylau a fygythiant ei orchuddio.

Esiampl gwir Gristnogol, cysondeb yr hwn a welir yn fwy-fwy i'r graddau yr adwaenir ef, yw y ffordd oreu o bregethu a thaenu Cristnogrwydd. Hebddo, nid yw y mawr zêl dros droedigaeth dynion ddim ond dwyn gwarth ar yr achos. Nid yw dyn drwg, neu ddyn o rinwedd canolig, a ymwthia ei hun i'r gwaith hwn, ddim ond yn dwyn dynion i ddrwg-dybied ymdrechiadau dynion sy'n well nag ef; ac yn y modd hyn dygir y byd i edrych ar bob ymdrechion a wneir i daenu Cristnogrwydd, fel rhyw ddull neu ymddangosiad yn unig. Yr hwn ni fyn ymostwng i'r drafferth o geisio gwella ei hun, na fydded iddo ymgynnyg i fod yn ddiwygiwr, yn nghartref neu oddicartref. A'r dyn a adwaenir ei fod o egwyddor wael, yn anonest, yn ddichellgar, yn ddideimlad tuag at ei gymydogion, na ddyweded air am ei gur-

[illegible] croes-neddau dynion eraill. Y mae ei fucheddyn nawdi i gyd[illegible], [illegible] ag nad all ei fawr ddim, nac'i gyfrannadau o'i gyfoeth ychwaith, ddim ei ddadwneud [illegible] niwed a wneir yn waith gan ei ymdrechiadau i wneud iawn am ei bechod, ac fe gymodi ac ef ei hun.

Y mae yn ddigon adnabyddus mai y rhwystr mwyaf ar ffordd Cristnogrwydd mewn gwledydd Paganaidd y dywedwyr dorion ac ymddygiad llygredig teyrnasoedd Cristnogol. Y mae yn gâs genddynt [illegible]m ein crefydd, oherwydd yr esiampliau mae arferiadwng o honi, ag yr ydym yn eu gosod o'u blaen. Nis gallant ddarllen ein d[illegible], ond gallant ddarllen ein bucheddau; a pha rysedd os gwrthodant gyfun[illegible] dan yr hon yr ymddengys fod cymaint o ddrygioni wedi tyfu i fyny. Y mae yr ledlad yn y dwyrein ac yn y gorllewin wedi cael achos, i [illegible] ar y Cristion fel un nad yw nemawr gwell nag ef ei hun. * * * * *

Fe allai ras gwneir ond ychydig ddaioni mewn gwledydd tramor hyd nes y byddom wedi gwella gorm ef: hyd nes byddo gwir Gristnogion yn dewil eu crefydd ac yn ei hymarferyd yn drwyadl, a thrwy eu cisiampl a'u dylanwad i'w thaenu yr mhlith eu cymydogion a thrwy'r wlad, fel y byddo yr elwg ar deyrnasoedd ered yn lled amlheilwng o'u proffes, ac yn ilai gwrthwynebus i'r Iuddew, a'r Mahometan, a'r Pagan. * * * * Dylem ddechreu gyda diwygio ein hunain; yna byddwn yn gymhwysach offerynau i daenu Cristnogrwydd trwy'r byd.—CHANNING.—*Cyf.*

DAEAR-GRYN.

AT OLYGYDD YR YMOFYNYDD.

SYR.—Derbyniais yr hanes a gaelais, mewn Llythyr o'r dan weddu oddiwrth [illegible] ag hyn sill hoff. Mr. Thos. Francis (Avonian,) Chili, Deheudir America. Os ewyll[illegible] ysiwch ei chyhoeddi, wele hi at eich gwasanaeth.

"Sul, y 18fed o Tachwedd, am chwarter wedi 6 y bore, cawsom yr olygfa fwyaf ars wydlawn a welsom erioed.

"Yr oedd yn fore lled niwlog a thywyll, a'r gwynt yn chwythu yn ysgafn o'r gogledd. Gan mai bore Sabbath ydoedd, gorphwysem ychydig yn hwy nag arfer, yn dal at yr hen arferiad a ddysgasom er yn ieuanc, er ei fod yn ddrwg. Ond rid *llawer* yn hwy y goddefid i ni orphwys; oblegid, heb i ni gael nemawr rybudd fel arfer (gan SWN,) teimlem ein hunain yn cael ein hysgwyd, a'n hysgwyd, gadarnach, gadarnach, nes o'r diwedd i ni orfod neidio mewn dychryn o'n gwelyau; ac er ein dychryn mwy, gwelem ryw gynhwrf ofnadwy yn y môr. Gyda rhyw gyflymdra a certh annhraethol rhedai i fyny i'r tir, gan orchuddio pob-peth o'i flaen am gannoedd o latheni yn y manau mwyaf gwastad. Cododd 15 o droedfeddau uniongyrch (*perpendicular*). Rhedai yn ol eilwaith gyda yr unrhyw gyfiymdra, nes gadael y *bay* yn sych am ugeiniau o latheni. Parhäodd felly i ddyfod a dychwelyd am oriau, ac ni lonyddodd yn hollol drwy y dydd. Yr oedd llong yma yn y *bay* ar y pryd; ofnem y cai ei dryllio yn gandryll; ïe, ofnem bethau llawer mwy—y gorchuddid yr holl wlad—y boddid yr holl drigolion, &c.; ond drwy diriondeb trugaredd ein Duw, arbedwyd ni oll y waith hon eto. Yr oedd genym *launches* wedi eu hangori oddeutu un cant o latheni oddlwrth y tir. Ciliodd y môr mor bell nes eu gadael ar dir sych; a chludodd un o honynt yn ol ac yn mlaen, gan ei daro yn erbyn cerig, &c., nes ei ddryllio yn o ddrwg. Hefyd, syrthiodd darn mawr o for y gwaith; ond *mwy* o *golledion* ni chafwyd yma. Oddeutu 9 o'r gloch yr [illegible], cychwynais ar gefyl tua "La Serena" i ddyben neillduol; pan gyrhaeddais draeth Coquimbo, yr oedd y trychineb fil waith yn fwy.

"Yr oedd *barges* mawrion wedi eu gyru i dir, a'u gadael gannoedd o latheni oddiwrth y dwr—llawer o goed, [illegible] coed, sef *moles* y *port*, &c., wedi eu gyru a'u gado yn [illegible]; yn [illegible] llawer iawn o bysgod a *penquins*. Yr oedd *canal* yn cael ei waeyd [illegible] y gwaeddedd yma gan Mr. Lambert; ond yr

oedd y mor wedi talu ymweliad ag ef, ac wedi ei wneyd mewn amryw tanau yn gydwastad a'r traeth.

"Heblaw hyn, cafodd Mr. Lambert golledion mawrion yn y *port*, drwy i'r mor deyfod i fynu ac agos chuddio ei waith. Chwythwyd amryw o'r ffwrnesau yn yllon. Yr oedd un o'r gweithwyr yn *lado* ar y pryd, a braidd y gallodd ddianc. Llaewodd y mor y ffwrnes—darniwyd ei gwaelod a'r ewbl, a syrthiodd y *stack* yn garneddau. Ac, yn wir, os oedd

'Breninoedd, ymherawdwyr byd,
Yn ofni'n crynu, o'r bron i gyd,
A'u gluniau llesg yn curo'n nghyd,
Gan ofni'r llid a ddaw.'

Yn amser Williams o Bantycelyn, pan ddinystrwyd LISBON, *nid* llawer llai ein hofn a'n cryndod ninau hove y Sul a nodwyd. Deuai y dinystr ag oedd wedi ei wneyd gan yr unrhyw achos yn *Conception, Lima*, &c., i'n cof, fel ar y cyntaf yn edrychem ar ein sefyllfa fel un anobeithiol agos; ac am enyd eloffem rwag dau feddwl, pa un a'i eilio i'r mynyddoedd, a'i aros i weled y canlyniad a wnaem. Pe y dlwyddiech i gael gafael yn y gân lle y cynhwysir y llinellau uchod, yn nghyd a'r dôn, "*Lovely Peggy*," a'i hanfon i mi, cyfleifwn hyny yn gymwynas fawr. Oddiwrth,

"Yr eiddoch yn anwyl,

"*Herradura, 5fed Ionawr*, 1850. "AVONIAN."

A oes rhai o ddarllenwyr yr *Ymofynydd* a all reddi cyfarwyddyd pa le i gael gafael yn y gân a'r dôn uchod? Os oes, a fydd y cyfryw can ddaed a rhoddi hysbysiaeth drwy gyfrwng yr *Ymofynydd?*

Yr eiddoch,

Cwm Avon, 18*fed, Mai*, 1850. THOMAS JOHNS (*Ieuan Avon.*)

SERYDDIAETH DDYSGRIFIADOL.

ALLAN O "ADDYSG CHAMBERS I'R BOBL," O GYFIEITHIAD EBEN FARDD.

Yr oedd meddyliddrychau boreuol dynolryw, am y gwerthrychau a dlysgrifir gan seryddiaeth, yn cyfodi oddiar yr ymddangosiadau a osodai llygad anwyspedig gerbrow, ac yr oeddent ynhell oddiwrth fod yn gywir. Tybid fod y ddaear fel yr ymddangys yn glawr sefydlog, neu o fwyaf yn gronell sefydlog, a chroniau allanol yn murio yr wybrennau, yn treigio o'i hamgylch unwaith yn y pedair awr ar hugain. Hyd yn nod adrawnwyr a gyrrifent y ddaear yn brif graidd y cyssawd, ac a ystyrient y cyrff nefol—yr haul a'r lleuad, y planedau a'r sêr—fel gwerthrychau hyddcain mewn cymhariaeth, wedi eu gosod mewn gwahanol gronellau gwrialadd, pob un yn ufuddhau i'w threigl-deddf ei hun, yn ol ysgogiadau ymddangosol y cyrph gosodedig ynddi. Ac ni chychwyddodd y meddyliau goleuaf wybodaeth o'r gwirionedd, heb lawer iawn o astudiaeth ac cirheiriadeth; a hwyd yn awy fyth, heb gwnawys yn gyffrediuol y drychfeddwl *nad* oedd y ddaear yn graidd y cyssawd, ac nad oedd ond rhan fechan ac israddol o hono. Nid oes lle yma i olrhain yr holl raddau trwy ba rai y cafwyd allan y gwirionedd, neu i rosynau y meddwl annysgedig allan o'i argraphiadau gwyrdraws cyntefig. Ond gellir gobeithio pan ddarlenir cyfansoddiad gweithredol yr wybrennau, y byddai ya allanadwy i fforio rhyw synnad pa fedd y mae gwerthrychau yn eu gwir nodweddiad, a'u gwir drefniadau, yn ymddangos fel y maent i'n llygaid ni.

Y maes a ddarsyller gan y seryddwr, nid yw ddim llai na'r RAYGDER DIDERLYN, fenly o leiaf y gall ein meddyliad yr cangder, gan fod pob gryn adnewyddiad a chwangcg ai ei sylldaych yn cynhaiten iddo dcuddio i oroesu mwy pellenig o hono, se eto nid oes dim terfyn. Yn yr cangder hwn mae cyssodau cyn-ysgedig o ddaliau a phlanedau cylchdroawl, a chyss lau eraill drachem, cyn-ysgedig o gyfresau ancirif o gyssodau llai, yn grog dig trwy ddylanwad attyniad, yn y cerlenedu o'r aall fo fach, ceu p[illegible] y fuia helaeth y nodii ddiwrth r

llall, fel, er y gall meddwl dyn mewn rhai enghreifftiau ei fesur, nis gall yn yr un ei amgyffred. Nyni a ddechreuwn gyda'r hyn a elwir yn gyffredin y Cyssawd Haulog—hyny yw, y cyssawd haulog neillduol hwnw, i ba un y perthyna ein Daear ni.

Y CYSSAWD HAULOG.

Y cyssawd haulog a gynnwysa yr haul yn ei graidd, uwchlaw deg ar hugain o blanedau gwybyddus, a nifer anwybyddus o gyrff a elwir comedau. Planedau *gwybyddus*, meddwn, oblegyd oddiwrth ddarganfyddiadau diweddar Leverrier ac ereill, ymddengys yn debygol y canfyddwn fwy etto o gyrph o'r natur yma. Y gair planed sydd oddiwrth y gair Groeg *planao* (crwydrwyf), o achos fod yr ychydig o'r cyrph adnabyddus i'r hynafiaid, yn nodedig yn bennaf yn eu golwg, o herwydd eu bod yn newid eu lleoedd yn wastadol, gyda golwg ar oleuadau eraill y ffurfafen. Comedau a elwir felly oddiwrth *coma* (Lladin), pen gwalltog, am eu bod yn ymddangos yn gynnwysedig o un man dysglaer, a chynffon hir yn chwyfio o'r tu ôl iddo.

Planedau.—O'r planedau mae wyth ag y gellir dywedyd eu bod yn graddu yn y dosparth cyntaf, gan belled âg y maent yn symud mewn rhôdau ar gryn wahân oddiwrth eu gilydd, ac y maent yn y golwg yma, mewn cymhariaeth, yn annibynol; tra gellir dywedyd fod twrr o gyrph bychain, yn leiaf bump o nifer, a chanddynt ond un ran rôdawl yn y cyfres, a thrwy hyny yn gydrâdd yn unig ag un o'r lleill. Y tair ar ddeg hyn a elwir yn *brif* blanedau, i'w gwahaniaethu oddiwrth eraill, y rhai a symmudant o gylch amryw o'r prifyddion, a'r rhai a elwir *eilyddion* neu osgorddion.

Y prif blanedau ydynt—Mercher, Gwener, y Ddaear, Mawrth, Festa, Ceres, Palas, Juno, Astrœa, Iau, Sadwrn, Herschel neu Uranus, a Neifion. Y rhan fwyaf o'r enwau hyn ydynt ddeilliedig oddiwrth dduwiau dychymygol Rhufain gynt. Mae gan y Ddaear un seren osgordd, y Lleuad; mae gan Iau, bedair; Sadwrn, saith; a thybir fod gan Uranus chwech; a Neifion un.

Y planedau ydynt yn symmud o gylch yr haul ar agos yr un clawr, yn cyferbynu â chraidd ei gorph, ac yn yr un tueddiad o'r gorllewin i'r dwyrain. Yr ail blanedau yn yr un modd ydynt yn symmud mewn cloriau o gylch creiddiau eu prif blanedau, ac yn yr un tueddiad o'r gorllewin i'r dwyrain. Gelwir y rhai hyn ysgogiadau attreigliadol; a sylwer eu bod yn ddwbl ar ran y sêr gosgordd, y rhai y mae iddynt ar yr un pryd gylchdro o amgylch eu prif blaned, a chylchdro gyda'r brif blaned o amgylch yr haul. Y llwybr a ddysgrifir gan blaned yn ei chylchdro a elwir ei *rhod.*

Mae pob planed, ail yn gystal a phrif, a'r haul hefyd, yn meddu ysgogiad yn eu cyrph eu hunain, cyffelyb i bin ar werthyd. Llinell ddychymygol yn ffurfio, megys, gwerthyd yr haul neu blaned a elwir *echel*; a dau ben yr echel a elwir *pegynau.* Mae echelau yr haul a'r planedau i gyd braidd mewn cywirgongl â chlawr yr ysgogiadau attreigliadol. Yr ysgogiad ar yr echel a elwir yr ysgogiad sidellol. Yr haul, y prif-blanedau, a'r gosgorddion, gydag eithriad amheus, o ddwy o sêr gosgordd *Uranus*, a gadael allan honno o eiddo Neifion, fel etto yn anhysbys, ydynt yn troi ar eu hechelau yn yr un tueddiad a'r ysgogiadau attreigliadol o'r gorllewin i'r dwyrain.

Yr *Haul* sydd Glôb neu gronnell o 882,000 milldir o dryfesur, neu cymaint a maintioli y ddaear 1,384,472 o weithiau, yn troi o gylch ei echel mewn 25 diwrnod. Wrth edrych arno trwy sylldrych, mae ei wyneb yn ymddangos yn danbaid-ddysglaer a goleu, fel yn danfon allan yn gystal wres a goleuni i'r planedau amgylchol. Ond ymddengys yn achlysurol ar y wyneb hwn fannau tywyll, wedi eu hamgylchu yn gyffredin âg ymyl o ymddangosiad gô-dywyll; cyfrifwyd rhai o'r mannau hyn yn ddim llai na 45,600 o filldiroedd o led, neu agos cymaint o ddwy waith ag amgylchiad y ddaear. Y parth hwnw o gorph yr haul, lle'r ymddengys y mannau sydd wregys llydan o amgylch ei ganolbwnc. Sylwir arnynt weithiau yn dyfod i'r golwg ar ei ymyl orllewinol, yn passio dros ei gorph mewn

ysbaid o 12 neu 13 diwrnod, ac yna yn diflanu. Weithiau sylwir arnynt yn cerbychu gyda chyflymder mawr, ac yn diflannu fel rhyw beth yn cael ei doddi, a'i drafiyncu i lifnôdd berwedig. Ar y rhanau dysglaer o gorph yr haul y mae hefyd weithiau i'w gweled resynau o ddysgleirdeb anghyffredin, fel pe cynnyrchid hwy gan drumau rhyw lifnôdd cyffroedig a goleu. Cynnwyswyd tyb, mai corff tywyll yw yr haul, amblygedig mewn awyrgylch wedi ei chyfaddasu i daflu allan wres a goleuni, a bod y mannau tywyll yn cael eu cynnyrchu gan doriadau neu ryllau yn yr awyrgylch hono yn dangos y crynswth tywyll tufewnol. Er fod yr haul gymaint yn fwy na'r ddaear, nid yw ei ddefnydd ond yn unig tua'r drydedd ran o dewder a durfingder ein planed ni, neu ychydig yn fwy na thewdwr dwfr.

Amgylchynir yr haul i bellder mawr gan oleuni gwan, neu ddefnydd goleu o deneuder eithafol, wedi ei ffurfio fel chwydd-wydr, corph yr haul yn y canol-barth, a'r defnydd goleu yn ymestyn yn nghlawr y cylchdroiadau planedawl, nes y mae yn terfynu yu flaenfain. Ar adegau neillduol, a'r awyrgylch mewn cyflwr ffafriol, gellir ei ganfod cyn codiad, neu ar ol machludiad haul, ar ddull côn, yn cyfeirio arosgo uwchben y lle y byddo yr haul ynghylch ymddangys ynddo, neu y lle a fyddo newydd ei adael, gelwir ef *Goleuni Sidyddol.*

DAMMEG MERHEDYDD AP ROSER O LAMBEDR A'R FRO AM GASTELL TREWARIN.

CASTELL Ffwg ap Gwarin, a elwir Ffwg Morganwg a Ffwg Vegwnt Caer Dyf. Un twr mawr ac uchel ydoedd, ac uwch o lawer nag un twr arall yn Ynys Prydain. Syr Ffwg yn son ar uchaf amser wyl y Sulgwyn am y caledi a ddyoddefws ef yn ymladd a gelynion a Sarasyniaid, a'r modd y dychymygodd ef gael y goreu ernynt, a marchogion urddasol a bonheddigion gwaeduchel yn gwrando: "Mi a allaswn wneuthur felly yn hawdd," ebe un Marchog;' "minnau hefyd," ebe un arall; "a minnau hefyd," ebe'r trydydd; ac felly o finnau i finnau onid chlywid pob minnau yn haeru ei hun gystal a'r goreu, a chystal a Syr Ffwg ei hunan. "Un peth arall," ebe Syr Ffwg, "a wnaethum, ond llai rhyfedd rhaid addef na dim arall ag a wnae." "Beth oedd hynny;" ebe un, ebe'r ail, ebe pob un, yn y man a'r lle. Ebe Syr Ffwg, "mi neidiais i ben fy nghastell fy hun, yr hwn yw'r uchaf gan gyfaddef pob un o honoch yn y deyrnas." "Gwir yw hynny parth yr uwchder," ebe un, ebe arall, ebe pob un yno: "ond am y neidio idd ei ben, nid ond gweled y cyfryw orchest a'm lygaid 'ym hunan a wna i mi gredu hyny." "Da iawn yn wir," ebe Syr Ffwg, "ac os caf yr anrhydedd o'ch cyfeillach rhyw ddydd ar fyr o amser i giniawa gyda mi yn fy nghastell, chwi a gewch fy ngweled yn neidio idd ei ben ef." Addaw dyfod pob un o honynt, ac enwi'r diwarnod. Dyfod yno bawb o honynt, ciniawa, bwyta, ac yfed yn dda; y bwydydd goreu, y diodydd goreu. "Yn awr," ebe Syr Ffwg, "am neidio i ben y castell dwr, deuwch gyda mi, dilynwch, a gwelwch bob un a'i lygad ei hunan." Myned at droed yr esgynfa—yna neidiodd Syr Ffwg i'r llettring cyntaf, ac oddiar hwnw i'r ail, a'r un modd i'r trydydd. ag fel hyny neidiodd o un llettring i arall, hyd yn ys neidiwys ef i ben y castell. "Och finnau!" ebe un, ac ar ei ol bob un arall, "myfi a allaswn neidio yn y rhywfodd a hyny yn hawdd iawn i ben y castell." "Gallasech," ebe Syr Ffwg, "mi a wn y gallasech, ac y gellwch yn hawdd, bob un o honoch, yn awr wedi fy ngweled i yn gwneuthur felly, a'r modd y gwnaethum. Diffyg deall yn unig oedd yr achos nas gwnaethoch felly, neu o leiaf nas daeth erioed ar ddeall i chwi'r modd y gellir ei wneuthur. Nid mawr y gorchest ar ddim i ddeall gallu."

Perchen deall gwrandawed ac ystyried y ddammeg, a chymmered addysg. O lettring i lettring y mae cyrhaedd pen Castell Gwybodaeth ac ucheldwr Celfyddyd, ac nid ofer ar bob ofer, ond amcanu hynny mewn amnaid.

HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

Y SENEDD.

Heblaw y trefniadau arferol tuag at drethi y wlad, nid oes dim a ymddengys o bwys neillduol wedi cael ei benderfynu yn y Senedd. Gwnaeth Mr. Grantley Berkeley gynnyg i ddwyn cyfreithiau'r ŷd i rywbeth yn debyg i'r hyn a fuont gynt. Ond collwyd ei gynnygiad yn *ddi-siar*.

Ar y 19eg o Fai, dygodd Argl. John Russel yn mlaen yr ysgrif er diddymu y swydd o Arglwydd Lywydd yr Iwerddon (*Lord Lieutenant of Ireland*).

GALW YN OL GENNADWR FFRAINGC.

Dyma'r peth sydd wedi peri y cynhwrf mwyaf yn ddiweddar yn y Senedd, yn y newyddiaduron, a thrwy'r wlad; sef, yr ymryson sydd wedi cyfodi rhwng Ffrainge a Lloegr. Dywed Arglwydd Palmerston ae eraill o'r weinyddiaeth fod llywodraeth Ffrainge wedi cymeryd tramgwydd yn ddiachos. Ymddengys i Ffrainge gynnyg cyfryngu er heddychu rhwng Lloegr a Groeg. Boddlonodd Arglwydd Palmerston i hyny. Cyttunwyd yn Llundain ar delerau yn ol pa rai yr oedd M. Gros, cennadwr dros Ffrainge, i geisio terfynu yr ymryson. Methodd M. Gros gael gan lywodraeth Athen i gydsynio a'r telerau, a dychwelodd tua Ffrainge. Ar hyny cymmerodd Syr W. Parker y peth i'w law ei hun, a phenderfynodd y ddadl mewn byr amser. Dyma ydoedd achos y tramgwydd.

Y CYFARFOD BLYNYDDOL.

Fel yr hysbyswyd yn y rhifyn diweddaf, cynhelir cyfarfod blynyddol yr Undodiaid eleni yn Mhantydefaid, Ceredigion, ar y 26ain a'r 27ain o'r mis hwn. Mr. Jones, o Aberdâr, fydd i bregethu; a phwnge y gynadledd fydd "Diben dioddefaint Crist." Gobeithir na bydd un anghyfleusdra i rwystro'r gweinidogion i fod yn bresennol fel arferol.

T. T.

TRAMOR.

FFRAINGC.

Ymddengys fod y rhan amlaf o'r mwyrif yn yr *Assembly* yn ochri at fesurau a dueddant i osod attalfa ar weriniaeth, os nad i ddwyn yn ol unbenaeth yn Ffrainge. Hen weision i Louis Philippe yw llawer o honynt; eraill ydynt o'r blaid ag sydd yn breuddwyddio liw dydd y cânt weled yr hen deulu brenhinol etto yn y *Tuileries*—offerynau parod yn nwylaw unbenaethwyr y Cyfandir. Cyfran arall o'r mwyrif sy'n pleidio yn wresog dros i'r llywodraeth gael bod yn llaw y Llywydd presenol, neu ryw arall o deulu Bonaparte. Y mae eraill sy'n ewyllysio yn dda i werin-lywodraeth; ond y mae ofn y *Socialists* a'r gwerinwyr cochion yn eu calonau, fel y gwnânt braidd un peth er mwyn cadw y rheiny i lawr. Y mae y rhai'n oll yn cyttuno ar yr angenrheidrwydd o gadw i fynu drefn sefydlog. Digon tebyg y cyttunant hefyd i sefydlu y gyfraith newydd a gynnygir er cyfyngu y bleidlais, yr hon oedd gyffredinol (*universal suffrage*) yn eu dewisiad hwy.

Pand ddarfu i M. Napoleon Bonaparte (cefnder y Llywydd, ond nid mewn ffafr yn bresennol) yn ddiweddar ddwyn deiseb o flaen yr *Assembly* oddiwrth rai miloedd o'r Parisiaid yn erbyn cyfyngu y bleidlais, cyferchid ef gan y mwyrif gyda nodau o ddiystyrwch. Arwydd ryfedd, onidê, eu bod yn gwaeddu "ach!" ar y drefn yn ol pa un y cawsant hwy eu gosod mewn awdurdod! A mwy etto, pan ddarfu i M. Lahitte, ar yr 16eg o'r mis diweddaf, gyhoeddi iddynt fod y Llywydd a'r weinyddiaeth yn barod i ddechreu ymryson â Lloegr yn achos yr ymyraeth â Groeg. Cyferchwyd ef â *bravo, bravo,* oddiwrth y mwyrif. Y mae yr un blaid yn cymmeradwyo'r gwaith o ddarostwng y Rhufeinwyr, druain, er mwyn dychwelyd y Pab! Barna llawer, nid heb uchos, bod gan ormesdeyrn y Cyfandir fys yn y gwaith hwn. Nid am ddim y mae Ymerawdwr Rwssia wedi bod yn gwenieithio i Louis Napoleon. Ond y mae wedi llwyddo yn ei amcan i fesur mawr. Llwyddwyd i beri i'r Ffrangcod, neu yn hytrach llywodraeth Ffrainge, i werthu achos rhyddid yn ngogledd yr Ital. Llwyddwyd hefyd i wneuthur byddin y weriniaeth yn offerynol i ddymchwelyd gwerinlywodraeth yn Rhufain, er mwyn dwyn

yn ol y Pab a'i Gardinaliaid. Wedi tyccio i ddwyn y werin lywodraeth Ffrengig fel hyn i annghysondeb a gwarth, tybiant ond odid y gallant yn rhwyddach ei dymchwelyd. Os gallant ond ymhellaeh lwyddo i beri ymryson gwirioneddol rhwng Ffrainc a Lloegr, byddant wedi gael eu gwyn; a chânt bob peth yn eu ffordd eu hunain trwy holl gyfandir Ewrop, ac ni fyddir yn hir cyn gosod brenin etto ar orsedd Ffrainge.

GERMANY.

Y mae yn debyg fod y Gymanfa Seneddawl yn Erfurt wedi cytuno i ffurfio *bund* neu undeb cenhedlaethol. Y mae yr undeb hwn yn cynnwys Prussia yn nghyd â'r holl dywysogion nad ydynt goronog. Ystyrir Brenin Prussia, yr hwn a'u galwodd ynghyd, yn flaenor ac amddiffynydd y *bund*. Y tywysogion coronog, Bavaria, Saxony, Wurtemberg, a Hanover, y rhai a ochrent i blaid Awstria, a omeddasant anfon cynnrychiolwyr i'r Gymanfa. Gadawyd yn dawel iddynt hwy gymeryd eu ffordd eu hunain, a chyttunwyd ar undeb hebddynt. Nid ydyw trefniadau y *bund* etto yn gwbl adnabyddus; ond deallir fod gwahanol dywysogaethau'r undeb i fod ddarostyngedig i lywodraeth gyffredinol, ac i gynnal byddin ddigonol i'w hamddiffyn yn erbyn pob ymosodiad gelyniaethol. Dygwyd y gwaith i ben yn ngwyneb bygythion oddiwrth Awstria a Russia. Yr oedd 80 mil o filwyr Awstriaidd wedi eu gosod ar gyffiniau Bohemia, yn barod i ruthro i Saxony ar y rhybudd cyntaf; tra yr ydoedd yn gefn iddynt 150 mil o Russiaid wedi eu trefnu ar gyffiniau Poland. Ond nid yw yn debygol y try ar fyr yn rhyfel rhwng y pleidiau hyn. Nid ydys yn celu mai amcan penaf y fyddin a barotoir, yw gweled Ffrainge, ac i ymosod arni, os digwydd i'r gwerinwyr cochion gael yr uchafiaeth yno.

RHUFAIN.

Y newydd hynottaf ag sydd wedi cyrhaeddyd attom o Rufain, yn ddiweddar, yw y *cynnygiad* a wnaed at DROEDIGAETH Y PAB. Un Dr. Townsend, Canon Durham, oedd y gwr a anturiodd i gymeryd y gorchwyl mewn llaw; ac yn ystod yr wythnos ddiweddaf yn Ebrill y gwnaeth ef y cynnyg, Heb gennad oddiwrth Ben ei Eglwys, a digon tebyg heb wybod iddo, yr aeth y Doctor ar ei neges i Rufain. Ei amcan oedd ceisio dwyn y Pab i osod terfyn ar yr ymrysonau, a'r dadleuon sy'n cadw y gwahanol enwadau Cristnogol ar wahân, ac mewn gelyniaeth a'u gilydd, ac i alw ynghyd Gynghorfa gyffredinol er mwyn sefydlu credo ag na fyddo achos dadleu yn ei chylch. Dydd Gwener, y 26ain o Ebrill, cafodd yr anrhydedd o gysanu *llaw* y Pab, ac o ymddiddan ag ef dros dri chwarter awr yn Lladin, ynghylch rhoddi caniatâd i offeriaid i briodi, ac ynghylch cynghorfa a chredo gyffredinol, &c. Dywedodd Pio Nono ei fod ef ar ddechreu ei deyrnasiad wedi bwriadu cynnyg y fath ddiwygiadau; ond ysywaeth, gorfod iddo eu rhoddi i fynu, oherwydd yr amseroedd enbyd. Dywedir iddo hefyd wylo'r deigrau wrth feddwl am y possiblrwydd o drefnu moddion er dwyn y Prydeiniaid yn ôl i'r gorlan Gatholig. Darfu i'r Pab gyddwyn yn rhyfedd a'r heretic hwn o Sais oedd wedi beiddio ymweled ac ymddiddan âg ef ar fatterion crefydd. A fyddai anffaeledigion Cymry, wyddys, i ddangos gyffelyb hynawsedd tuag at hereticiaid eu gwlad?

GROEG.

Y mae llynges Lloegr wedi dychwelyd o Athen i Malta. Dywedir ei fod mewn bwriad iddi ymweled a gororau'r Ital; a bod gan lywodraeth Lloegr *gounts i settlo* â Brenin Naples a Grand-duc Tuscany. Tebyg mai *counts* ydynt o'r un fath ag y buwyd yn ddiweddar yn *settlo* â Groeg; hyny yw, nid colled arianol y maent wedi achosi i ddeilliaid ein gwlad, gymaint â'r dirmyg bwriadol y maent yn ddiweddar wedi ei ddangos tuag at Loegr, dan ymgeledd os nad dan arweiniad Russia ac Awstria.

AMERICA.

Y mae newyddion diweddar o America yn hysbysu fod cynnyrch y cotwm eleni yn well nag y buwyd yn ei ofni. Ac o wlad yr aur—mwyn-gloddiau California—y mae y newyddion, a'r adroddiadau yn ffafriol annisgwyliadwy.

I'R ASPYGAU;

NEU LYGAD Y DYDD (DAISY), WRTH EI DROI DAN Y GWYS.

(Efelychiad o waith yr anfarwol awenfab hwnw, Mr. Robert Burns, awdwr yr "*Highland Mary.*")

FLODEUYN gwylaidd! cefaist fi
Mewn awr anhyfwyn; er dy fri,
Rhaid imi'th droi a'th osod di,
Ow lygad glwys!
Heb fodd ymattal mwy na lli,
O dan y gwys!
Och! nad y fwyn ehedydd der
A ddyrchai tua bro y ser,
A'i bron, wrth adaw'th wreiddyn per,
A'th droes i lawr;
Pan gwnnai 'i ganu ennyn Ner
Ar doriad gwawr.

Gogleddwynt oer a chwythai'n llym
Pan aned di, ond amlwg ini,
Dyrchefaist, heb ddychrynu dim,
O'r stormydd taer,
Ychydig uwch (heb nemawr rym)
Na'th fam, y ddae'r!
Beilch flodeu gerddi gant, heb lai,
Ymharddu ger cysgodawl dai,
A'u cadw, nod rhag oerni Mai!
Ond ti, rhwng main,
Addurni faes, a'th wedd ddifai,
Rhwng drysni—drain.

Ac yno yn dy ysgafn wisg,
Dy ddifrycheulid fron o'i phlisg
Ddadblyga'i cheinion mad ym mysg
Gwaith Celi mawr;
Ond mwy dy degwch, tawel gysg
Ym mhridd y llawr!

Cyffelyb ydyw tynged mun
Addurnai'r man lle b'a'i a'i llun;
Gan hudol serch galarus un,
Gwna'i hyder fawr
Hi'n llychwinedig, fel dy hun,
Yn llwch y llawr!

Cyffelyb yw y bardd i ti,
Ar faes ei fywyd, lle mae cri
Gofidiau fyrdd, yn chwerwi 'i fri,
Heb ddim o werth,
Ond cael adnabod Ior yn Ri,
Rydd iddo nerth.
Dyoddef gant y teilwng rai,
Er na cheir ynddynt unrhyw fai,
Dan drawsion byd, orthrymwyr gau!
Ond daw yr awr,
Na bydd y naill na'r llall yn llai
Yn llwch y llawr.

Tydi a geni farwnad brudd,
Yn deimlad oll i lygad dydd,
Dy dynged di dy hun a fydd,
Cyn byddo'n faith;
Hen gwlltr distryw'th degwch rydd
Mewn daear laith!

Bryn Amman. D. L. MOSES.

THE HERMIT.

CYFIEITHIAD O BEATTIE.

Stanza 4.

'Tis not for the ravage of winter I mourn,
Kind Nature the embryo blossom will save;
But when shall spring vent the *mouldering urn?*
Oh! when shall it dawn on the night of the grave?

CYFIEITHIAD.

Nid galaru yr wyf bod y gauaf yn arw,
O'i ben y daw Anian a'i blodau mewn gwedd;
Ond pa bryd y daw'n wanwyn ar *oer-lwch y marw?*
O! pa bryd tyr y wawr ar hir-nos y bedd?

Landwr. MERFYN FRYCH.

AR YR "ENGLYNION I LYS IFOR HAEL" (TUDAL. 120).

SYR,—Gadawsoch allan yr ail englyn o'r pedwar a ganodd Evan Brydydd Hir i Lys Ifor Hael. Mae fel y canlyn:—

"I Dafydd* gelfydd y gan,—oer ofid
Rhoi Ifor mewn graian;
Mwy echrys bod ei lys lan
Yn lleoedd i'r Ddylluan."

Aberdar, Mai 20, 1850. J. JONES.

[Diolch i Mr. Jones am ddwyn ar gof i ni y gwall a ddigwyddodd. Anfonasid y pedwar englyn i'r wasg yn y modd y rhoddwyd hwynt yn y *Cylchgrawn* am 1793. Y trydydd englyn (nid yr ail), yr hwn a adawyd allan o ddiffyg lle, tebyg, ydoedd fel hyn:—

"I Dafydd gelfydd a'i gan—oer ofid
Roi Ifor mewn graian;
Y llwybrau gynt lle bu'r gan,
Yw lleoedd y Ddylluan."

Pa un o'r ddau ddull sydd oreu, barned y cywraint. Dichon y canfyddir fod y ddau yn wallus.—GOL.]

---

* Dafydd ab Gwilym, bardd teuluaidd Ifor Hael.

MARWOLAETH.

Mai y 7fed, yn 80 mlwydd oed, bu farw y Parch. Thos. Davies, pregethwr gyda'r *Bedyddwyr Undodaidd*, yn Tredegar. Dydd Iau canlynol, cladd wyd ef yn monwent y Wesleyaid Cymreig, pan y pregethodd y Parch. O. Evans, Cefn, ar yr achlysur, oddiwrth 1 Cor. xv. 57, i gynnulleidfa syml a difrifol. Trwy *garedigrwydd* y Parch. Mr. Lewis, cafodd Mr. E. bregethu yn nhy cwrdd Wesleyaidd, a gobeithio na wnaiff Mr. L. anfoddloni am wneuthur ei gymmwynasgarwch fel hyn mor gyhoedd.

E.

D. EVANS, ARGRAPHYDD, CAERDYDD.